




Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Priodasau gan Sefydliadau Cred Digrefydd

Crynodeb o Ymatebion Ysgrifenedig i'r
Ymgynghoriad ac Ymateb y Llywodraeth

Cyhoeddwyd yr ymateb hwn ar 18 Rhagfyr 2014





Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Priodasau gan Sefydliadau Cred Digrefydd

Crynodeb o Ymatebion Ysgrifenedig i'r Ymgynghoriad ac
Ymateb y Llywodraeth

Ymateb i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael yn <https://consult.justice.gov.uk/>

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	3
Cyflwyniad	7
Cefndir	8
Mathau a nifer yr ymatebion	13
Ymateb y Lywodraeth	13
Egwyddorion Ymgynghori	16
Atodiad A – ymgynghoriad ar briodasau i rai â chred ddigrefydd: crynodeb o'r ymatebion	18
Atodiad B – Rhestr o'r grwpiau a ymatebodd	37

Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad

1. Cyhoeddwyd y papur ymgynghori, *Priodasau gan sefydliadau cred digrefydd*, ar 26 Mehefin 2014 yn unol ag adran 14 Deddf Priodasau (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013 ("Deddf 2013"). Mae Adran 14 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol drefnu i adolygu a ddylid newid y ddeddf i ganiatáu i sefydliadau cred digrefydd¹ weinyddu priodasau yng Nghymru a Lloegr.
2. Nod yr ymgynghoriad oedd ceisio barn ynghylch a oes achos sylweddol dros ganiatáu seremonïau priodas cyfreithiol ddilys ar gyfer rhai â chred ddyneiddiol ac o bosibl credoau eraill digrefydd, neu a ddylai'r dull gweithredu presennol barhau. Ceisiwyd barn hefyd ar ba sefydliadau fyddai'n cael eu cynnwys mewn newid i'r gyfraith a sut y gellid rhoi newid o'r fath ar waith.
3. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad dros 12 wythnos, a daeth i ben ar 18 Medi 2014. Dadansoddwyd yr holl ymatebion a dderbyniwyd gyda'r nod cyffredinol o ganfod materion allweddol a sicrhau bod ystod a dyfnder llawn safbwyntiau yn cael eu cynrychioli. Mae'r safbwyntiau a ddarparwyd wedi goleuo ymateb y Llywodraeth. Gellir gweld crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd yn **Atodiad A**.

Mathau a nifer yr ymatebion

4. Derbyniwyd cyfanswm o 1,901 o ymatebion ysgrifenedig. Ymddengys bod y rhan fwyaf o'r ymatebion wedi dod gan ddyneiddwyr neu gan aelodau neu gefnogwyr Cymdeithas Dyneiddwyr Prydain (BHA). Cyflwynwyd y nifer mwyaf o ymatebion (76%) gan aelodau unigol o'r cyhoedd. Fodd bynnag, o'r 1,443 o ymatebwyr a nododd eu bod yn unigolion, ymddengys fod oddeutu 1,063 wedi gwneud defnydd o ganllawiau ar ateb cwestiynau'r ymgynghoriad a ddarparwyd gan y BHA i'w haelodau a'i chefnogwyr. Mae rhestr o'r sefydliadau a'r grwpiau a ymatebodd wedi'i chynnwys yn **Atodiad B** i'r adroddiad hwn.
5. Bu i'r mwyafrif o ymatebwyr ateb dau gwestiwn yn unig sef cwestiwn 1 ynghylch a ddylid newid y gyfraith a chwestiwn 4 ynghylch ymhle, os caniateir hwynt, y dylai priodasau cred gael eu cynnal. Yr oedd y gyfradd ymateb i bob un o gwestiynau eraill yr ymgynghoriad oddeutu 20%.

Asesiadau effaith

6. Aethom ati i gynnal asesiadau cychwynnol o effeithiau cydraddoldeb ac economaidd tebygol y cynigion a chynhwyswyd y rhain fel atodiadau i'r ddogfen ymgynghori.
7. Rydym wedi ystyried yr ymatebion o'r ymgynghoriad ac rydym o'r farn fod y materion cydraddoldeb a gynhwyswyd yn y Datganiad Cydraddoldeb cyn-ymgynghori yn parhau'n gyfredol ac yn ddigryfnewid. Ceir crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad ar

¹ Mae Adran 14 yn diffinio sefydliadau digrefydd fel sefydliadau "sydd â hyrwyddo system o gredoau digrefydd sy'n gysylltiedig â moesoldeb neu foeseq yn brif neu unig ddiben iddynt"

faterion cydraddoldeb ym mharagraffau 83 i 92 Atodiad A. Gellid ystyried y byddai caniatáu priodasau cred digrefydd yn hyrwyddo cydraddoldeb cyfle rhwng cyplau sy'n dymuno priodi pan fo un neu'r ddau â chred grefyddol ac un neu'r ddau gyda chred ddigrefydd. Fodd bynnag, nid oes unrhyw opsiwn yn ein barn ni y gellir ei weithredu ar unwaith a fyddai'n darparu cydraddoldeb llawn o ran triniaeth rhwng rhai sydd â chredoau crefyddol, rhai â chredoau dyneiddiol neu gredoau eraill digrefydd a chyplau yn fwy cyffredinol.

8. Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau ar asesiad economaidd o'r effaith. Mynegodd y rhan fwyaf o'r rhain sylwadau neu bryderon ynghylch y costau posibl i sefydliadau cred, busnesau a chyplau, o ran ble y gellid cynnal priodasau lle ceir cred ddigrefydd.

Crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd

9. Mae'r rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad o blaid newid y gyfraith i ganiatáu seremonïau priodas cyfreithiol ddilys ar gyfer rhai â chredoau digrefydd ochr yn ochr â seremonïau priodas crefyddol a sifil yng Nghymru a Lloegr. Dywedodd y mwyafrif o'r rhai a oedd yn cefnogi newid y gyfraith eu bod yn ystyried y ddeddf gyfredol yn annheg neu'n wahaniaethol. Y prif reswm a roddwyd oedd, yn wahanol i gyplau crefyddol, nad oes modd ar hyn o bryd i gyplau sy'n ddyneiddwyr briodi mewn seremoni gyfreithiol gyda'u credoau hwy yn sylfaen iddi ac yn cael ei chynnal gan berson sy'n rhannu'r credoau hynny, nac mewn man sy'n ystyrlon iddynt hwy'n bersonol.
10. Dywedodd ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu newid y gyfraith fod seremonïau sifil eisoes yn darparu'n ddigonol ar gyfer priodas heb gred grefyddol ac y gallai agor cyfraith priodas ymhellach gynyddu'r risg o briodasau ffug a phriodasau gorfodol a seremonïau amhriodol. Dywedodd nifer o ymatebwyr o wasanaethau cofrestru lleol bod y galw, o'u profiad hwy, am seremonïau awyr agored yn hytrach nag am seremonïau cred.
11. Yr oedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o'r farn y dylai seremonïau priodas ar gyfer rhai â chredoau digrefydd, gael eu cynnal mewn lleoliadau digyfngiad, gan gynnwys yn yr awyr agored. Yr oedd y mwyafrif o'r ymatebwyr a oedd yn cefnogi seremonïau mewn lleoliadau digyfngiad o'r farn fod y ddeddf gyfredol yn gwahaniaethu yn erbyn cyplau dyneiddiol oherwydd bod cyplau â chred grefyddol yn gallu priodi mewn man o addoliad, ond nad oes modd i ddyneiddwyr briodi'n gyfreithiol mewn man sy'n ystyrlon iddynt hwy'n bersonol. Dywedodd nifer o ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r opsiwn hwn y byddai'n cyflwyno anghydraddoldeb i'r mwyafrif o gyplau a oedd wedi'u cyfyngu o ran ble y gallent briodi.
12. O'r 22% o ymatebwyr a wnaeth sylwadau ar ba sefydliadau fyddai'n gallu cwrdd â'r diffiniad o sefydliadau cred a nodwyd yn adran 14 Deddf 2014, dywedodd ychydig dros hanner nad oeddynt yn ymwybodol o unrhyw sefydliad ac eithrio dyneiddwyr. Dywedodd nifer o ymatebwyr y gallai unrhyw grŵp fod yn gymwys, o bosibl, os gallai'r grŵp ddangos mai ei bwrpas oedd hyrwyddo credoau neu foesau digrefydd, neu lwyddo i gael dyfarniad y byddai gwahaniaethu yn ei erbyn pe byddai'n cael ei eithrio.
13. Yr oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiynau ar brofion cymhwyso o'r farn y dylid defnyddio meini prawf (megis statws elusennol, bod wedi hen sefydlu, a'i gwneud yn ofynnol i o leiaf un o'r ddau sy'n priodi fod yn aelod o sefydliad cofrestredig) er mwyn sicrhau rhai safonau a rhagofalon penodol. Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn y byddai'n anodd neu'n amhosibl defnyddio rhai mathau penodol o

feini prawf heb fod mewn perygl o wahaniaethu yn erbyn rhai sefydliadau cred. Dywedodd rhai ymatebwyr y dylai unrhyw feini prawf fod yn safonol ac yn cael eu cymhwyso ar draws yr holl ddarparwyr seremonïau priodas.

Ymateb y Llywodraeth

14. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod fod y mwyafrif o ymatebwyr i'r ymgynghoriad o blaid newid y gyfraith i ganiatáu seremonïau dilys yn gyfreithiol ar gyfer y rhai â chredoau digrefydd, a chaniatáu i'r priodasau hyn gael eu cynnal mewn lleoliadau digyfngiad.
15. Rydym yn ymwybodol, fodd bynnag, y codwyd nifer o faterion cymhleth sydd â goblygiadau o ran gweinyddu priodasau yn ehangach.
16. Un broblem allweddol yw ymhle y dylai priodasau cred gael eu cynnal. Mae'r BHA a'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n cefnogi priodasau dyneiddiol o'r farn bendant mai dim ond seremonïau mewn lleoliadau digyfngiad fydd yn darparu cydraddoldeb ar gyfer cyplau dyneiddiol ac yn cwrdd â'u hanghenion. Fodd bynnag, byddai caniatáu i briodasau cred gael eu cynnal mewn lleoliadau digyfngiad yn creu gwahaniaeth pellach o ran triniaeth yn ein cyfraith priodasau, a gwrthwynebir hyn gan Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru ar y sail y byddai'n creu anghydraddoldeb ar gyfer y mwyafrif o grwpiau a chyplau crefyddol sy'n cael eu cyfyngu i'w man addoli cofrestredig. Mae gwasanaethau cofrestru'n nodi galw cynyddol am briodasau awyr agored, ac mae'r Llywodraeth yn ymwybodol y gallai caniatáu priodasau cred mewn lleoliadau digyfngiad hefyd gael ei ystyried yn annheg gan gyplau nad ydynt yn grefyddol nac yn ddyneiddwyr ond a allai fod eisiau mwy o ddewis o ran lleoliadau ar gyfer priodasau. Ni ellid cyflawni unrhyw newidiadau ehangach o ran y manau lle y gellid cynnal seremonïau priodas drwy'r pŵer i wneud gorchmynion yn adran 14 Deddf 2013, sydd wedi'i gyfyngu i wneud darpariaeth ar gyfer priodasau gan bobl mewn sefydliadau cred digrefydd.
17. Byddai'r Llywodraeth hefyd eisiau gweld mwy o ystyriaeth yn cael ei roi i reoli risg drwy ddefnyddio meini prawf cymhwyso, yn enwedig yng nghyswllt atal priodasau ffug a phriodasau gorfodol, seremonïau amhriodol a gwneud gweinyddu priodasau yn fater masnachol. Ein barn ni yw nad mater syml yw defnyddio meini prawf o'r fath ac y gallai fod yn agored i her lwyddiannus gan grwpiau sy'n cael eu heithrio, gan gynnwys ar y sail na fyddai grwpiau crefyddol yn ddarostyngedig i'r un cyfyngiadau, fel y saif y gyfraith ar hyn o bryd.
18. Mae'r Llywodraeth hefyd yn ymwybodol o faterion cysylltiedig a allai fod y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn, ond sydd â goblygiadau ar gyfer cyfraith ac ymarfer priodas ac sydd o'r herwydd angen ystyriaeth, megis y cwestiwn o ba fathau o sefydliadau sy'n gallu gweinyddu seremonïau priodas crefyddol.
19. Credwn ei bod yn bwysig i ni gymryd y cyfle i ystyried yr holl faterion hyn gyda'i gilydd. Rydym yn dymuno osgoi unrhyw ganlyniadau negyddol a allai ddeillio o ymgymryd â mwy o ddeddfwriaeth dameidiog. Felly, wedi ystyried yn ofalus yr ystod gyflawn o ymatebion a'r materion cymhleth sy'n gysylltiedig â'r opsiwn ar gyfer newid (sydd â goblygiadau ehangach ar gyfer gweinyddu priodasau) barn y Llywodraeth yw ei bod bellach yn angenrheidiol ystyried yn ofalus ofynion cyfreithiol a thechnegol seremonïau a chofrestru priodas cyn neu ar yr un adeg ag y gwneir penderfyniad a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig penodol o ganiatáu seremonïau priodas sy'n ddilys dan gyfraith ar gyfer y rhai sydd â chred ddigrefydd.

20. O'r herwydd, bydd y Llywodraeth yn gofyn i Gomisiwn y Gyfraith a wnaiff gychwyn adolygiad ehangach o'r gyfraith yng nghyswllt seremonïau priodas cyn gynted â phosibl. Dylai adolygiad annibynnol allu edrych ar yr holl faterion sy'n deillio o'r ymgynghoriad ynghyd â phob mater perthnasol arall. Bydd y Llywodraeth yn dechrau gweithio gyda'r Comisiwn ym mis Ionawr i ystyried cwmpas adolygiad o'r fath.

Cyflwyniad

21. Y ddogfen hon yw'r adroddiad ôl-ymgynghori ar gyfer y papur ymgynghori, Priodasau gan sefydliadau cred digrefydd, a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar 26 Mehefin 2014. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad dros 12 wythnos hyd 18 Medi 2014 ac roedd yn ceisio barn ynghylch a oes achos sylweddol dros newid y gyfraith i ganiatáu seremonïau priodas dyneiddiol neu o bosibl gan rai â chredoau eraill digrefydd, ochr yn ochr â seremonïau crefyddol a sifil yng Nghymru a Lloegr. Ceisiwyd barn hefyd ynghylch pa sefydliadau fyddai'n cael eu cynnwys gan newid i'r gyfraith, pe digwydd iddo gael ei benderfynu fod achos dros newid o'r fath, a sut y dylid gweithredu newid o'r fath.
22. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad, casgliadau'r Llywodraeth a'r camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.
23. Gellir cael copiâu pellach o'r adroddiad hwn a'r papur ymgynghori drwy gysylltu â:

Maya Sooben
Y Weinyddiaeth Cyfiawnder
Cyfiawnder Teulu
4.31, 4ydd Llawr
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ
Ffôn: 020 3334 3127

E-bost: MarriagesbyNon-ReligiousBeliefOrganisations@justice.gsi.gov.uk

Mae'r adroddiadau ar gael hefyd ar wefan y Weinyddiaeth: **www.justice.gov.uk**.

Mae fformatau eraill o'r cyhoeddiad hwn ar gael drwy wneud cais i'r cyfeiriad uchod.

Gellir canfod papur ymatebion yn yr iaith Gymraeg yn **www.justice.gov.uk**.

Cwynion neu sylwadau

24. Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori, dylech chi gysylltu â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

Cefndir

25. Cyhoeddwyd y papur ymgynghori, Priodasau gan sefydliadau cred digrefydd, ar 26 Mehefin 2014 yn unol ag adran 14 Deddf Priodasau (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013 ("Deddf 2013"). Mae Adran 14 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol drefnu adolygiad ynghylch a ddylid gwneud gorchymyn yn caniatáu gweinyddu priodasau yn ôl arferion (defodau) sefydliadau cred digrefydd (ac os felly, pa ddarpariaeth ddylid ei chynnwys), ac mae ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn ofynnol fel rhan o'r trefniadau.
26. Mae'r ddeddf ar weinyddu priodasau yng Nghymru a Lloegr yn cael ei llywodraethu gan Ddeddf Priodas 1949 (deddf 1949). Mae Deddf 1949 yn darparu ar gyfer seremonïau priodas crefyddol (priodas yn ôl defodau Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru; arferion y grefydd Iddewig a Chymdeithas y Cyfeillion (Crynwyr), a phriodas yn unol â defodau unrhyw grefydd arall yn eu man addoli sydd wedi ei gofrestru i'r diben hwnnw) a seremonïau priodas sifil (priodasau a weinyddir ym mhresenoldeb uwch gofrestrydd a chofrestrydd mewn swyddfa gofrestru neu adeilad a gymeradwywyd i'r diben megis gwesty neu blasty). Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r man lle cynhelir priodas yn ganolog o ran ei dilysrwydd cyfreithiol.
27. Ar hyn o bryd, ni chaiff Cymdeithas Dyneiddwyr Prydain (BHA) briodi cyplau mewn seremoni ddyneiddiol sy'n gyfreithiol ddilys yng Nghymru a Lloegr. Ar hyn o bryd caniateir iddynt gynnal seremonïau yn unol â chredoau dyneiddiol ond nid oes grym cyfreithiol iddynt ac os yw'r partion yn dymuno priodi'n gyfreithiol, rhaid iddynt wneud hynny mewn seremoni sy'n cydymffurfio â ddarpariaethau Deddf 1949 (megis seremoni sifil gan gofrestrydd). Mae'r BHA yn ymgyrchu am newid yn y ddeddf i ganiatáu i weinydd dyneiddiol gynnal seremonïau priodas sy'n ddilys dan gyfraith yng Nghymru a Lloegr.
28. Ers mis Mehefin 2005, dan adran 12 Deddf Priodas (Yr Alban) 1977, mae Cofrestrydd Cyffredinol yr Alban wedi caniatáu awdurdod dros dro i rai gweinyddion dyneiddiol weinyddu priodasau sy'n cael eu cydnabod dan gyfraith. Mae Deddf Priodasau a Phartneriaethau Sifil (Yr Alban) 2014 yn ehangu categori "crefyddol" priodas i gynnwys "crefyddol neu gred" ac felly bydd yn gosod cyrff dyneiddiol ac unrhyw sefydliadau cred eraill yn yr un sefyllfa â sefydliadau crefyddol o ran gweinyddu priodasau (a chofrestru partneriaethau sifil).
29. Mae gan Lywodraeth yr Alban bryderon am elw ac enillion, priodasau ffug a phriodasau gorfodol ac unrhyw risgiau a chymhlethdodau eraill o fewn ei system ei hun ac (yn dilyn ymgynghoriad cychwynnol yn 2013 fel rhan o gyflwyno deddfwriaeth ar briodasau ar gyfer cyplau o'r un rhyw) bydd yn cynnal ymgynghoriad arall, mwy cynhwysfawr, yn 2015 ar ofynion cymhwyso i gyrrff crefyddol a chred gydymffurfio â hwy cyn y caiff eu gweinyddion weinyddu priodasau neu gofrestru partneriaethau sifil. Cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban bapur trafod byr ar y gofynion cymhwyso yn 2014.
30. Mae'r rhai sy'n cefnogi newid yn y gyfraith yn dadlau fod galw gwirioneddol am briodasau dyneiddiol (gyda'r BHA yn adrodd bod 600-800 o briodasau o'r fath yn cael eu cynnal yng Nghymru a Lloegr bob blwyddyn, oddeutu 80% ohonynt yn cael eu cynnal yn ogystal â seremoni sifil gyfreithiol ddilys); a bod dyneiddwyr, ac o bosibl eraill sy'n glynu at system o gredoau digrefydd, yn dioddef anfantais am nad ydynt yn

cael eu trin yn yr un modd â'r rhai sy'n grefyddol ac yn gallu priodi mewn seremoni sy'n ddilys dan gyfraith, sy'n adlewyrchu eu credoau hwy, yn cael ei gweinyddu gan weinydd sy'n rhannu eu crefydd, mewn lleoliad sy'n ystyrlon yn bersonol i'r cwpl sy'n priodi.

31. Wrth i Ddeddf Priodas 2013 fynd drwy'r Senedd cyflwynwyd nifer o ddiwygiadau i ganiatáu i Gymdeithas Dyneiddwyr Prydain, ac o bosibl unrhyw sefydliad arall â chred ddigrefydd, i weinyddu priodasau. Oherwydd cryfder y teimladau yn y dadleuon yn y ddau Dŷ, cynhwyswyd adran 14 yn Neddf 2013.

Themâu a chwestiynau'r ymgynghoriad

32. Roedd yr ymgynghoriad yn nodi ac yn ceisio barn ar y materion canlynol.

A oes achos sylweddol dros newid?

33. Gofynnodd yr ymgynghoriad a ddylem gynnal y ddeddf bresennol ar weinyddu priodasau neu a oes achos sylweddol dros newid yn y gyfraith i sefydlu seremonïau cred ddigrefydd fel trydydd math o seremoni gyfreithiol, ochr yn ochr â seremonïau crefyddol a sifil, ar gyfer priodi yng Nghymru a Lloegr. Yr oedd yn ofynnol ystyried a yw'r ddeddf ar hyn o bryd yn darparu'n ddigonol ar gyfer cyplau sydd â chred ddyneiddiol a chredoau eraill digrefydd, gan ystyried y caiff cyplau â chredoau digrefydd briodi mewn seremonïau sifil y gallant eu personoli'n unol â'u dymuniadau hwy, gan gynnwys drwy ddefnyddio addunedau personol (heb fod yn rhai crefyddol).

Pa sefydliadau?

34. Mae adran 14 Deddf 2013 yn diffinio sefydliad cred, i ddibenion yr adolygiad hwn fel: **“sefydliad sydd â hyrwyddo system o gredoau digrefydd sy'n gysylltiedig â moesoldeb neu foeseg yn brif neu unig ddiben iddo”**. Yr oedd yr ymgynghoriad yn nodi barn gychwynnol y Llywodraeth, os caniateir priodasau gan sefydliadau cred, y byddem eisieu darparu ar gyfer unrhyw gamau gwarchodol ac eithrio sefydliadau masnachol (neu unrhyw sefydliadau eraill nad ydynt yn sefydliadau cred gwirioneddol ond yn ceisio elw ariannol o ganlyniad i newid yn y rheoliadau.
35. I'r diben hwn gofynnodd yr ymgynghoriad pa sefydliadau, yn ogystal â grwpiau dyneiddiol, allai gwrdd â diffiniad adran 14; pe byddai'r gyfraith yn cael ei newid, pe byddai'r diffiniad yn cael ei gyfyngu er mwyn sicrhau bod y mathau o sefydliadau sy'n gallu gweinyddu priodas i rai â chred ddigrefydd yn dderbyniol; ac am farn ynghylch pa fathau o sefydliadau nad ydynt yn dderbyniol.

Ble y byddai seremonïau priodasau cred dilys dan gyfraith yn cael eu cynnal pe caniateid hwy

36. Gan ystyried bod y gyfraith ar weinyddu priodasau yn seiliedig yn fras ar y seremoni'n cael ei chynnal mewn adeilad a gofrestrwyd i'r diben hwnnw (gydag eithriad hanesyddol ar gyfer priodasau Iddewon a Chrynwyr, nad ydynt wedi'u cyfyngu o ran lle y gall seremonïau gael eu cynnal), ac nad oes gan ddyneiddwyr (ac o bosibl sefydliadau eraill sy'n gallu cwrdd â'r meini prawf ar gyfer sefydliadau cred digrefydd) adeiladau eu hunain, gofynnodd yr ymgynghoriad ymhle y gellid cynnal priodasau cred dilys dan gyfraith. Nododd y papur ymgynghori dri opsiwn posibl gan wahodd barn arnynt:

Opsiwn 1: Caniatáu i sefydliadau cred digrefydd weinyddu priodasau o fewn eu hadeiladau eu hunain neu adeiladau lle mae'r sefydliad yn cyfarfod i fynegi ei gredoau, ac sydd wedi cael eu hardystio i'r diben hwn.

Opsiwn 2: Caniatáu i sefydliadau cred digrefydd weinyddu priodasau yn unrhyw le (ac eithrio adeiladau crefyddol) sy'n ystyrlon i'r cwpl, gan gynnwys yn yr awyr agored.

Opsiwn 3: Caniatáu i sefydliadau cred digrefydd weinyddu priodasau mewn 'adeiladau cymeradwy' (ac eithrio adeiladau crefyddol) megis gwesty neu blasty.

37. Yng nghyswllt yr opsiynau hyn, nodwyd bod angen ystyried goblygiadau cydraddoldeb unrhyw wahaniaethau posibl o ran triniaeth. Yn benodol, mae angen ystyried y ffaith nad oes gan ddyneiddwyr eu hadeiladau eu hunain i'w cofrestru ochr yn ochr â goblygiadau cydraddoldeb rhoi i ddyneiddwyr ac o bosibl sefydliadau eraill â chred nad yw'n un grefyddol, fwy o ryddid nac a roddir i'r rhan fwyaf o sefydliadau crefyddol a'r cyplau hynny sy'n dymuno priodi mewn seremoni sifil (pe byddem yn caniatáu i gyrrff cred gynnal seremonïau priodas yn yr awyr agored, er enghraifft).

Darparu camau diogelu priodol

38. Mae'r ymgynghoriad yn datgan fod yn rhaid ystyried pa gamau diogelu a threfniadau fyddai'n angenrheidiol pe byddai'r gyfraith yn cael ei newid i ganiatáu priodasau cred, i sicrhau bod statws ac urddas priodas yn cael eu gwarchod a lleihau i'r eithaf unrhyw risgiau o ganlyniad. Mae'r prif risgiau a ganfuwyd yn ymwneud â'r ffaith y gallai newid yn y gyfraith, yn anfwriadol greu marchnad fasnachol ar gyfer gweinyddu priodasau, ac atal priodasau gorfodol (lle nad yw un neu'r ddau barti'n cydsynio) a phriodasau ffug (lle nad yw'r briodas yn un wirioneddol, yn aml i ddibenion mewnfudo).
39. Gofynnodd yr ymgynghoriad am sylwadau ar yr egwyddor o gyflwyno profion y byddai'n rhaid i sefydliad cred gwrdd â hwy cyn y gallai ei swyddogion cofrestru/gweinyddion gael eu hawdurdodi i weinyddu priodas, a nodwyd er ystyriaeth y math o feini prawf y gellid eu defnyddio yng nghyd-destun yr hyn sy'n ofynnol ar hyn o bryd gan sefydliadau crefyddol a chofrestryddion sifil. Yn ogystal, ceisiwyd hefyd sylwadau ar yr egwyddor o ymestyn i sefydliadau cred y gofyniad y gall y Cofrestrydd Cyffredinol ei gymhwyso i sefydliadau crefyddol lle y mae'n rhaid i bob sefydliad sydd newydd gofrestru gael cofrestrydd yn bresennol ym mhob priodas ym mlwyddyn gyntaf eu cofrestrriad, ac y gellir ymestyn y gofyniad hwn os oes pryderon o ran gweithdrefnau.
40. Gofynnodd yr ymgynghoriad hefyd a ddylai priodasau gan sefydliadau cred gael eu cyfyngu i aelodau'r sefydliad cred, neu a ddylai o leiaf un o'r ddau sy'n priodi fod yn aelod o'r sefydliad cred. Byddai hyn o gymorth o ran gwarchod yn erbyn masnacheiddio a chyplau'n dewis y seremoni am resymau ar wahân i foeseg neu gred.

Seremonïau

41. Dywedasom, pe byddai seremonïau priodasau cred yn cael eu gwneud yn gyfreithiol ddilys, y byddai angen penderfynu a ddylent gynnwys y datganiadau statudol a'r geiriau contractio sy'n ofynnol mewn priodasau sifil a chrefyddol (ac eithrio priodasau Crynwyr ac Iddewon, nad ydynt yn ddarostyngedig i'r gofyniad hwn).

Materion yn ymwneud â chydraddoldeb

42. Cynhaliwyd asesiad cydraddoldeb cychwynnol gennym a oedd yn nodi'r effeithiau posibl ar briodi cyplau gyda nodweddion gwarchodedig² a daethpwyd i'r casgliad nad yw ein cynigion yn gwahaniaethu'n uniongyrchol a'u bod yn ogystal yn annhebygol o achosi gwahaniaethu anuniongyrchol. Gofynnwyd am safbwyntiau pellach ar effeithiau posibl y cynigion a'r opsiynau yn yr ymgynghoriad ar gydraddoldeb yn ogystal ag unrhyw dystiolaeth gysylltiedig neu wybodaeth i gynorthwyo gyda'n dealltwriaeth a'n hasesiad o'r effeithiau.
43. Dywedasom, pe byddai priodasau cred yn cael eu caniatáu yng Nghymru a Lloegr, y byddai angen i'r Llywodraeth bennu pa sefydliadau cred ddylai orfod cynnal priodasau un rhyw a'r rhyw arall fel cofrestryddion sifil, neu (fel yn achos yr Alban) gael eu trin yn yr un modd â sefydliadau crefyddol, gyda sefydliadau cred digrefydd yn gorfod 'dewis' gweinyddu priodasau cyplau o'r un rhyw.

Asesiadau Effaith

44. Ymgwymerwyd ag asesiadau cychwynnol o effeithiau tebygol ar gydraddoldeb y cynigion a'r costau a'r buddion economaidd posibl i'r sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector, yn ôl y gwahanol opsiynau nodwyd yn yr ymgynghoriad. Cynhwyswyd yr asesiadau hyn fel atodiadau i'r ddogfen ymgynghori.³ Hefyd, gofynnwyd cwestiwn penodol gennym am yr effeithiau posibl o ran cydraddoldeb ar briodi cyplau â nodweddion gwarchodedig, ac am unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth a allai gynorthwyo i oleuo ein dealltwriaeth a'n hasesiad o'r effeithiau ar gydraddoldeb.
45. Ceir crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y materion cydraddoldeb ym mharagraffau 83 i 92 o Atodiad A. Rydym wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r ymatebion hyn ac o'r farn fod y materion a gynhwyswyd yn y Datganiad Cydraddoldeb cyn-ymgynghori yn parhau'n gyfredol a digyfnawid.
46. Wrth gyrraedd y casgliadau y daethpwyd iddynt mewn ymateb i'r ymgynghoriad mae'r Llywodraeth wedi ystyried yr effeithiau posibl o ran cydraddoldeb ar y rhai â nodweddion gwarchodedig yng nghyswllt crefydd a chred. Gellid ystyried y byddai caniatáu priodasau i rai â chred ddigrefydd yn hyrwyddo cydraddoldeb cyfle rhwng cyplau crefyddol sy'n dymuno priodi a'r rhai sy'n dal cred nad yw'n un grefyddol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw opsiwn yn ein barn ni y gellir ei weithredu ar unwaith a fyddai'n darparu cydraddoldeb llawn o ran triniaeth rhwng rhai sy'n grefyddol, rhai â chredoau dyneiddiol neu gredoau eraill digrefydd, a chyplau yn fwy cyffredinol.
47. Gwnaeth nifer fechan o ymatebwyr sylwadau ar yr asesiad economaidd o'r effaith. Mynegodd y rhan fwyaf o'r rhain sylwadau neu bryderon ynghylch y costau posibl i sefydliadau cred, busnesau a chyplau, o ran ble y gellid cynnal priodasau cred. Roedd hyn yn cynnwys prynu neu rentu adeiladau ar gyfer cofrestru, ffioedd ar gyfer lleoliadau trwyddedig, a chost prynu offer ar gyfer cadw cofrestrau a thystysgrifau priodas yn ddiogel.

² Y "nodweddion gwarchodedig" perthnasol dan y Ddeddf Cydraddoldeb yw hil, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oedran, ail-aseinio rhyw, beichiogrwydd a mamolaeth.

³ <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/marriages-by-non-religious-belief-organisations>

48. Roedd nifer o ymatebwyr yn cwestiynu'r amcangyfrif o nifer y priodasau i rai â chred ddigrefydd a fyddai'n cael eu cynnal pe byddai'r gyfraith yn cael ei newid (amcangyfrif oddeutu 600-800 y flwyddyn). Roedd hyn yng ngoleuni twf priodasau dyneiddiol yn yr Alban ers iddynt gael eu gwneud yn ddilys dan gyfraith yn 2005, a lle y maent bellach yn cyfrif am oddeutu 10% o'r holl briodasau.
49. Gwnaeth nifer fechan o ymatebwyr sylw y gall gweinyddion weithredu fel busnesau annibynnol 'er elw' neu fel unigolion hunangyflogedig yn cael tâl uniongyrchol gan y cwpl sy'n priodi, hyd yn oed os byddant wedi cael achrediad neu gymeradwyaeth gan elusen/ mudiad dielw (a allai dderbyn canran am bob priodas a weinyddir gan y gweinydd a achredwyd). Y materion a godwyd oedd a allai'r seremonïau hyn wedyn gael eu diffinio fel rhai 'dielw' ac a ddylid cyflwyno unrhyw reolaeth dros hyn. Fodd bynnag, mae hyn hefyd yn codi cwestiwn ynghylch a fyddai newid yn y gyfraith a fyddai'n galluogi rhai gweinyddion (rhai a gymeradwywyd gan sefydliad cred cofrestredig) i weinyddu seremonïau cyfreithiol yn cael effaith economaidd ar weinyddion annibynnol a busnesau sy'n darparu seremonïau annibynnol yn ehangach.

Mathau a nifer yr ymatebion

50. Mae'r adran hon yn rhoi manylion am y ffyrdd y cyflwynwyd ymatebion, faint o ymatebion a ddadansodwyd i gynhyrchu'r canfyddiadau a nodir yn yr adroddiad hwn, a phroffil y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

Ffyrdd o gyflwyno ymateb

51. Gallai aelodau unigol o'r cyhoedd gyflwyno ymateb i'r papur ymgynghori mewn un o dair ffordd:
- drwy holiadur ar-lein y Weinyddiaeth Cyfiawnder (derbyniwyd 410 o ymatebion).
 - drwy e-bost i flwch derbyn pwrpasol yr ymgynghoriad (derbyniwyd 1,487 o ymatebion).
 - drwy gopi caled (derbyniwyd 4 o ymatebion).
52. Bu i'r mwyafrif o ymatebwyr ateb dau gwestiwn yn unig sef cwestiwn 1 ynghylch a ddylid newid y gyfraith (ymatebodd 100%) a chwestiwn 4 ynghylch ymhle, os caniateir hwynt, y dylai priodasau cred gael eu cynnal (ymatebodd 97%). Yr oedd y gyfradd ymateb i bob un o gwestiynau eraill yr ymgynghoriad oddeutu 20%.
53. Dewisodd rhai ymatebwyr gyflwyno'u hymateb ar ffurf llythyr estynedig neu gyflwyniad ysgrifenedig heb ateb cwestiynau'r ymgynghoriad yn uniongyrchol o angenrheidrwydd. Lle yr oedd sylwadau'n amlwg yn berthnasol i gwestiynau penodol yn y papur ymgynghori, cofnodwyd y sylwadau i ddibenion dadansoddi fel atebion i'r cwestiynau hynny.

Nifer a phroffil yr ymatebwyr

54. Anfonwyd y papur ymgynghori at 700 o sefydliadau a phartïon â diddordeb. Cyfanswm nifer yr ymatebion a dderbyniwyd oedd 1,901.
55. Yr oedd oddeutu 6% o'r ymatebion gan grwpiau ac unigolion a oedd yn nodi eu bod yn ddyneiddwyr. O'r 1443 o ymatebwyr a oedd yn dynodi eu bod yn unigolion, yr oedd yn ymddangos fod oddeutu 1,063 wedi defnyddio canllawiau ar ateb cwestiynau'r ymgynghoriad a ddarparwyd gan y BHA i'w haelodau a'i chefnogwyr, a gwnaeth 96 arall sylwadau eu bod wedi priodi mewn seremoni ddyneiddiol neu wedi trefnu un.
56. Ymatebodd nifer fechan iawn o sefydliadau crefyddol. Yr oedd ychydig dros 2% o'r ymatebion gan weinyddion a sefydliadau gweinyddion, ac roedd oddeutu 2.5% gan wasanaethau cofrestru gan gynnwys Panel Cofrestru Cenedlaethol (Cymru a Lloegr), byrddau cofrestru rhanbarthol, gwasanaethau cofrestru awdurdodau lleol a chofrestryddion unigol. Mae rhestr o'r holl grwpiau a ymatebodd wedi'i chynnwys yn **Atodiad B** i'r adroddiad hwn.

Ymateb y Llywodraeth

57. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod fod y mwyafrif o ymatebwyr i'r ymgynghoriad o blaid newid y gyfraith i ganiatáu seremonïau dilys yn gyfreithiol ar gyfer y rhai â chredoau digrefydd, a chaniatáu i'r priodasau hyn gael eu cynnal mewn lleoliadau digyfngiad, gan gynnwys yn yr awyr agored.
58. Rydym yn ymwybodol, fodd bynnag, y codwyd nifer o faterion cymhleth sydd â goblygiadau o ran gweinyddu priodasau yn ehangach.
59. Un broblem allweddol yw ymhle y byddai priodasau cred gael eu cynnal. Yn wahanol i'r Alban lle y mae gweinyddion unigol yn cael eu cofrestru i weinyddu priodasau, yng Nghymru a Lloegr mae'r gyfraith ar weinyddu priodasau yn seiliedig ar y gofyniad i'r seremoni briodas gael ei chynnal mewn adeilad a gofrestrwyd i'r diben hwnnw, gydag eithriad hanesyddol i briodasau'r Crynwyr ac Iddewon nad oes cyfyngiad arnynt o ran lle y gall priodasau gael eu cynnal (o ganlyniad i drefniant yn dyddio'n ôl i 1753, pan wnaed darpariaeth i'w galluogi i weinyddu priodasau cyfreithiol y tu allan i'r Eglwys Anglicanaidd).
60. Mae eisoes wahaniaeth yn y modd yr ymdrinnir â chyplau o wahanol grefyddau, a rhai sydd heb grefydd. Gellid ystyried y byddai caniatáu priodasau i rai â chred ddigrefydd yn hyrwyddo cydraddoldeb cyfle rhwng cyplau â chred grefyddol sy'n dymuno priodi a'r rhai sy'n dal cred nad yw'n un grefyddol. Fodd bynnag, nid oes opsiwn yn ein barn ni y gellir ei weithredu ar unwaith na fyddai'n creu gwahaniaeth pellach o ran triniaeth o fewn ein cyfraith priodas a darparu cydraddoldeb llwyr o ran triniaeth rhwng rhai â chredoau crefyddol, rhai a chredoau dyneiddiol neu greddoau eraill digrefydd, a chyplau'n fwy cyffredinol.
61. Byddai cyfyngu seremonïau i adeiladau a gofrestrwyd gan sefydliadau cred yn darparu cydraddoldeb â'r mwyafrif o grwpiau crefyddol sy'n gallu gweinyddu seremonïau dilys dan gyfraith. Fodd bynnag, deallwn nad oes gan ddyneiddwyr eu hadeiladau eu hunain i'w cofrestru. Yn ogystal, mae'r BHA, a nifer fawr o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad, o'r farn gadarn na fyddai adeiladau a gofrestrwyd nac adeiladau a gymeradwywyd ar gyfer seremonïau sifil yn cwrdd ag anghenion nac yn darparu cydraddoldeb ar gyfer cyplau o ddyneiddwyr gan na fyddai hyn yn eu galluogi i briodi yn eu "lleoliad ystyrion". Mae'r BHA yn dadlau mai mewn eglwys neu fan arall o addoliad y mae hyn ar gyfer grwpiau crefyddol, ond yng nghyswllt dyneiddwyr, unrhyw fan sy'n ystyrion i'r cwpl yn bersonol ydyw, gan gynnwys yn yr awyr agored.
62. Mae Eglwys Loegr (CoE) yn gwrthwynebu cynnal priodasau cred mewn lleoliadau digyfngiad ac adeiladau a gymeradwywyd ar gyfer priodasau sifil ar y sail y byddai'r ddau opsiwn yn creu anghydraddoldeb i'r rhan fwyaf o grwpiau crefyddol a chyplau sydd wedi eu cyfyngu i'w man addoli cofrestredig. Gwnaeth yr Eglwys yng Nghymru sylw yn nodi os caiff yr ystod o leoliadau ei ehangu, y dylai'r ddarpariaeth hefyd fod yn berthnasol i briodasau crefyddol. Barn Eglwys Loegr ar ganiatáu priodasau cred mewn adeiladau a gymeradwywyd ar gyfer priodasau sifil yw y dylai'r Llywodraeth, os yw am fwrw ymlaen â'r opsiwn hwn, ymgynghori'n ehangach ynghylch a ddylai gweinyddion crefyddol, pe byddai eu henwad yn dymuno hynny, allu gweinyddu priodasau mewn adeiladau a gymeradwywyd.

63. Mae'r Llywodraeth yn ymwybodol y gallai caniatáu priodasau cred mewn lleoliadau digyfngiad hefyd gael ei ystyried yn annheg gan gyplau nad ydynt yn grefyddol nac yn ddwyneiddwyr ond a allai fod eisiau mwy o ddewis o ran lleoliadau ar gyfer priodasau. Mae gwasanaethau cofrestru'n adrodd galw cynyddol am seremonïau priodas yn yr awyr agored. Mae'r Panel Cofrestru Cenedlaethol a nifer o wasanaethau cofrestru llywodraeth leol wedi cynnig drwy'r ymgynghoriad y dylai'r Llywodraeth ystyried ymestyn cwmpas cymeradwyaethau i gynnwys gofod yn yr awyr agored sy'n eiddo i adeiladau a gymeradwywyd i ddibenion seremonïau priodas sifil, ac yn ffinio â hwy. Maent yn dadlau y byddai hyn, yn hytrach na chaniatáu priodasau cred, yn llenwi'r 'bwllch' mwyaf sylweddol yn y ddarpariaeth gyfredol, gan gynnwys y trefniadau llywodraethu a'r camau diogelu sydd wedi'u hen sefydlu.
64. Mae priodasau yn yr awyr agored wedi dod i'r amlwg fel thema gref o'r ymgynghoriad. Ni fyddai modd cyflawni unrhyw ddiwygiad i gyfraith priodas lle y gall sefydliadau gynnwys seremonïau neu briodasau awyr-agored yn fwy cyffredinol, drwy gyfrwng y pŵer i wneud gorchmynion yn adran 14 Deddf Priodasau (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013. Mae adran 14 yn gyfyngedig i wneud darpariaeth ar gyfer priodasau gan sefydliadau cred digrefydd. Beth bynnag, mae'r ffaith bod ein cyfraith priodas yn seiliedig ar gofrestru adeiladau i ddibenion gweinyddu priodasau yn gwneud hwn yn fater arbennig o gymhleth ac yn un y gallai adolygiad ehangach roi sylw priodol iddo.
65. Wrth wneud unrhyw newidiadau, byddai angen i ni hefyd gadw golwg manwl rhag cynyddu'r risg o briodasau gorfodol neu briodasau ffug neu danseilio darpariaethau a roddwyd yn eu lle'n ddiweddar i helpu i atal priodasau ffug.
66. Wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, barn y Llywodraeth yw nad oes modd bod yn gwbl sicr ynghylch pa sefydliadau allai gael caniatâd i weinyddu priodasau cred cyfreithiol ddilys yn dilyn newid yn y gyfraith. Byddem yn edrych tuag at wneud meini prawf cymhwysio yn ofynnol i darparu rhai camau diogelu, yn enwedig yng nghyswllt rheoli unrhyw risg o ran priodasau gorfodol neu ffug, seremonïau amhriodol, a masnacheiddio. Fodd bynnag, nid mater syml yw hyn gan y gallai camau diogelu o'r fath fod yn destun her lwyddiannus gan grwpiau a eithriwyd, gan gynnwys ar y sail na fyddai grwpiau crefyddol sy'n gallu gweinyddu priodasau yn ddarostyngedig i'r un cyfyngiadau. Rydym o'r farn bod y mater hwn yn haeddu ystyriaeth bellach, ac fe allai fod lle i ystyried a allai rhai meini prawf, neu unrhyw safonau neu hyfforddiant ar gyfer gweinyddion gael eu cyflwyno ar draws holl ddarparwyr seremonïau priodas.
67. Yn ogystal, gallai newid y gyfraith i ganiatáu seremonïau priodas cred agor y drws i weinyddu priodasau cyfreithiol ddilys i nifer fawr o weinyddion annibynnol o bosibl, a allai, er eu bod wedi'u hachredu neu eu cymeradwyo gan sefydliad cred dielw, ddal i gael eu talu'n uniongyrchol gan y cwpl, a gallu elwa'n ariannol. Mae sefydliadau ac unigolion eisoes yn elwa o wasanaethau priodas, ond y materion o bwys yma yw a fyddem yn anfwriadol yn galluogi masnacheiddio gweinyddu priodasau ac a fyddai unrhyw fesurau rheoli'n ofynnol.
68. Mae gan Lywodraeth yr Alban a Chofrestrydd Cyffredinol yr Alban bryderon ynghylch priodasau a weinyddir er budd elw ac enillion, priodasau gorfodol a ffug a risgiau eraill o fewn y system yn yr Alban. Yn dilyn ymgynghoriad cychwynnol yn 2013 fel rhan o gyflwyno deddfwriaeth ar briodasau ar gyfer cyplau o'r un rhyw, bydd Llywodraeth yr Alban yn cynnal ymgynghoriad pellach, mwy cynhwysfawr, yn 2015 ar ofnion cymhwysio i gyrff crefyddol a chred gwrdd â hwy cyn y caiff eu gweinyddion weinyddu priodasau neu gofrestru partneriaethau sifil (cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban bapur trafod byr ar y gofynion cymhwysio yn gynharach eleni. Er bod y system yn wahanol yn

yr Alban, fe allai fod yn fuddiol edrych ar y materion hyn yn fwy gofalus ochr yn ochr â'r hyn sy'n digwydd yn yr Alban.

69. Mae'r Llywodraeth hefyd yn ymwybodol o faterion cysylltiedig sydd y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn, ond sydd â goblygiadau ar gyfer cyfraith ac ymarfer priodas ac sydd o'r herwydd angen cael eu hystyried gyda'i gilydd, megis y cwestiwn o ba fathau o sefydliadau sy'n gallu gweinyddu seremonïau priodas crefyddol.
70. Credwn ei bod yn bwysig i ni gymryd y cyfle i ystyried yr holl faterion hyn gyda'i gilydd ac osgoi unrhyw ganlyniadau negyddol a allai ddeillio o ymgymryd â deddfwriaeth dameidiog arall.
71. Wedi ystyried yn ofalus yr ystod lawn o ymatebion a materion a godwyd drwy'r ymgynghoriad, a'r materion cymhleth cysylltiedig ag unrhyw opsiwn ar gyfer newid, rydym wedi dod i'r casgliad nad peth syml fyddai gwneud newidiadau o'r fath ac y byddai'n golygu goblygiadau ar gyfer gweinyddu priodasau'n ehangach.
72. O'r herwydd, barn y llywodraeth yw, er mwyn gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid bwrw ymlaen â chynnig penodol i ganiatáu seremonïau priodas cyfreithiol ddilys ar gyfer rhai â chredoau digrefydd, bod angen ystyried yn ofalus y gofynion cyfreithiol a thechnegol o ran seremonïau priodas a chofrestru a'r ystod o faterion cydraddoldeb perthnasol. I'r diben hwn, bydd y Llywodraeth yn gofyn i Gomisiwn y Gyfraith a wnaiff gychwyn adolygiad ehangach o'r gyfraith yng nghyswllt seremonïau priodas cyn gynted â phosibl.
73. Byddai'r Llywodraeth hefyd eisiau sicrhau bod unrhyw adolygiad yn rhoi ystyriaeth lawn a ddim yn tanseilio'r darpariaethau yn Neddf 2013 sy'n gwarchod sefydliadau crefyddol nad ydynt eisiau priodi cyplau o'r un rhyw ar yr un pryd â chaniatáu i'r rhai sy'n gwneud hynny ddewis cynnal priodasau o'r fath,
74. Bydd y Llywodraeth yn cydweithio â Chomisiwn y Gyfraith o ddechrau'r flwyddyn ymlaen i ddatblygu cwmpas yr adolygiad. Byddai unrhyw adolygiad yn cael ei gynnal o fewn telerau'r protocol a gytunwyd rhwng y Weinyddiaeth Cyfiawnder a Chomisiwn y Gyfraith sy'n nodi sut y dylem gydweithio â'n gilydd ar brosiectau i ddiwygio'r gyfraith.⁴
75. Mae priodas yn un o'n sefydliadau pwysicaf a mwyaf gwerthfawr sydd hefyd yn effeithio ar hawliau a statws cyfreithiol pobl. Mae'n bwysig ein bod yn cymryd amser ac yn gweithredu yn y modd priodol i sicrhau ein bod yn gwneud hyn yn iawn.

⁴ http://lawcommission.justice.gov.uk/docs/Protocol_Lord_Chancellor_and_Law_Commission.pdf

Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyirff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi'u nodi yn yr egwyddorion ymgynghori.

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>

Atodiad A – ymgynghoriad ar briodasau cred ddigrwydd: crynodeb o'r ymatebion

1. Yr oedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar wyth cwestiwn penodol. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ystod o sylwadau a ddarparwyd ar y materion hyn.

Cwestiwn 1 – A oes achos sylweddol dros newid yn y gyfraith i sefydlu seremonïau ar gyfer rhai â chred ddigrwydd fel trydydd math o seremoni gyfreithiol, ochr yn ochr â seremonïau crefyddol a sifil, ar gyfer priodi yng Nghymru a Lloegr?

	Yr Holl Ymatebwyr	
	Nifer	Canran
Oes	1813	95.4%
Nac oes	86	4.5%
Ddim yn gwybod/ Ddim yn dweud	2	0.1%
Cyfanswm	1901	100%

2. Yr oedd mwyafrif yr ymatebwyr (oddeutu 95%) o blaid newid y gyfraith i ganiatáu priodasau dilys dan gyfraith i rai â chred ddigrwydd. O blith y rhai a oedd yn cefnogi newid roedd oddeutu 6% yn dynodi eu hunain yn ddyneiddwyr. Mae'n ymddangos bod 59% arall wedi defnyddio canllaw a ddarparwyd gan y BHA i'w haelodau a'i chefnogwyr ar ateb cwestiynau'r ymgynghoriad, a dywedodd 5% arall eu bod wedi priodi mewn seremoni ddyneiddiol neu wedi trefnu i briodi mewn seremoni ddyneiddiol.
3. Ymatebodd nifer fechan o sefydliadau ffydd i'r ymgynghoriad. Yr oedd ymatebwyr o New Unity (Undodwyr) a Synagog Maidenhead o blaid caniatáu priodasau cred dilys dan gyfraith. Ymatebodd Cyngor Archesgobion Eglwys Loegr (CoE), a'r Eglwys yng Nghymru (Cynghorydd yr Esgob i'r Eglwys a Chymdeithas), nad oeddynt yn credu bod yr achos dros newid y ddeddf yn un sylweddol. Fodd bynnag, nododd CoE eu bod yn deall fod dyhead tebyg ymysg dyneiddwyr a chyplau Cristnogol a oedd yn dymuno cael gweinydd a oedd yn rhannu eu cred a seremoni a oedd yn ymgnawdoliad llawn o'r credoau hyn, ac ar y sail honno, eu bod o'r farn bod gwerth mewn ystyried sut y gellid awdurdodi gweinyddion dyneiddiol i gynnal seremonïau priodas, ar yr amod, drwy wneud hynny, na fyddai unrhyw niwed o ganlyniad i arwyddocâd cymdeithasol priodas nac i'r trefniadau cyfredol ar gyfer cyrff eraill a awdurdodwyd i weinyddu priodasau.
4. Yn ogystal ag ymateb gan y Panel Cofrestru Cenedlaethol, derbyniwyd oddeutu 47 o ymatebion gan gofrestryddion unigol a gwasanaethau cofrestru lleol a rhanbarthol. Yr oedd y mwyafrif o'r ymatebwyr hyn yn gryf yn erbyn niwed yn y gyfraith yn bennaf ar y sail fod gan gyplau eisoes opsiwn i bersonoli seremoni sifil i adlewyrchu eu gwerthoedd a'u credoau, ac y gallai agor y broses o weinyddu priodasau ymhellach achosi risg o gynnydd yn y nifer o briodasau gorfodol a ffug.

Rhesymau dros gefnogi newid yn y gyfraith

5. Dywedodd dros ddwy ran o dair o'r rhai a oedd yn cefnogi newid yn y gyfraith eu bod yn ystyried y ddeddf gyfredol yn annheg neu'n wahaniaethol. Gwnaeth y mwyafrif o'r ymatebwyr hyn sylwadau y byddai newid yn y gyfraith yn hyrwyddo tegwch ac yn cael gwared ag anghydraddoldeb yn y gyfraith gyfredol rhwng y rhai â chred grefyddol a'r rhai â chred ddigrefydd drwy ganiatáu i'r rhai oedd â system gred heb fod yn grefyddol – dyneiddwyr yn bennaf – briodi mewn seremoni wedi'i gwreiddio yn eu credoau hwy ac yn cael ei chynnal gan berson a oedd yn rhannu'u credoau a'u gwerthoedd. Dywedodd rhai ymatebwyr fod hwn yn hawl dynol.
6. Gwnaeth y mwyafrif o'r rhai a oedd yn cytuno â newid yn y gyfraith sylw nad yw seremonïau sifil yn darparu seremonïau ystyrion ar gyfer dyneiddwyr nac yn caniatáu i gyplau gael y math o seremoni y maent ei heisiau yn y lleoliad o'u dewis hwy. Yr oedd ymatebwyr o'r farn nad oedd seremoni sifil, er gwaethaf y posibilrwydd o gynnwys addunedau a chyffyrddiadau personol, yr un peth â seremoni yn cael ei gweinyddu gan rywun a oedd yn rhannu eu credoau ac wedi'i theilwra'n bersonol gyda chymorth gweinydd dyneiddiol.
7. Rhoddodd llawer o ymatebwyr enghreifftiau o seremonïau priodas a weinyddwyd gan weinydd dyneiddiol neu weinyddion annibynnol eraill, gan nodi eu bod yn gwerthfawrogi'n fawr gallu priodi mewn lleoliad a oedd yn ystyrion iddynt hwy ac ymwneud agosach y gweinydd, gan gynnwys dod i'w hadnabod a bod â rhan yng nghynllunio'r seremoni (yr oeddynt hwy yn teimlo oedd ar gael i gyplau oedd yn cael priodas grefyddol ond ddim i gyplau a oedd yn priodi mewn seremoni sifil).
8. Mae sylwadau ynghylch lle y dylai seremonïau priodas i rai â chred ddigrefydd gael eu cynnal, yn cael eu darparu isod ym mharagraffau 38 i 55.
9. Yr oedd y rhesymau eraill a roddwyd dros gefnogi newid yn y gyfraith yn cynnwys:
 - Bod galw am briodasau dyneiddiol, y teimlai ymatebwyr oedd yn cael ei ddangos drwy nifer cynyddol y priodasau hyn yn yr Alban; bod cyplau yn dewis cael priodasau dyneiddiol yng Nghymru a Lloegr nad oes statws cyfreithiol iddynt; a bod rhai cyplau hefyd yn dewis cael seremoni briodas ddyneiddiol yn ogystal â phriodas sifil ddilys dan gyfraith, er gwaethaf yr anghyfleustra a'r gost.
 - Nifer o sylwadau gan rai a oedd wedi cael seremoni briodas ddyneiddiol a seremoni sifil gyfreithiol a oedd yn dweud ei bod yn annheg eu bod hwy wedi gorfod talu ddwywaith ac yn gresynu nad oedd eu tystysgrif briodas yn cynnwys dyddiad yr hyn oeddynt hwy yn ei hystyried yn wir briodas.
 - Ansawdd uchel priodasau dyneiddiol, y teimlid fyddai'n debygol o wella rhagor ar statws ac urddas priodas, pe byddent yn cael eu cyfreithloni. Dywedodd rhai ymatebwyr y byddai caniatáu seremonïau ar gyfer rhai â chred ddigrefydd yn cefnogi sefydliad priodas drwy annog mwy o gyplau i briodi.
 - Y cynsail a osodwyd mewn manau eraill, gan gynnwys yn yr Alban ac Iwerddon, a bod y gwahaniaeth rhwng Lloegr a'r Alban yn annheg.
 - Y byddai caniatáu seremonïau priodas i rai â chred ddigrefydd yn gweddu i gymdeithas luosog gyda nifer fawr a chynyddol o unigolion nad ydynt yn grefyddol, ac yn cefnogi rhyddid dewis i gyplau.

Rhesymau dros wrthwynebu newid yn y gyfraith

10. O'r 4.5% o ymatebwyr nad oedd yn cefnogi newid yn y gyfraith, gwnaeth dros hanner ohonynt sylwadau bod seremonïau sifil eisoes yn darparu'n ddigonol ar gyfer priodas ddigrefydd. Yr oedd y safbwyntiau a ddarparwyd yn cynnwys y canlynol:
 - Ceir eisoes ddewis rhwng priodas seciwlar a chrefyddol.
 - Os dymunant, gall cyplau bersonoli seremonïau sifil mewn ffordd sy'n cynnwys eu haddunedau a'u gwerthoedd eu hunain (gan gynnwys credoau dyneiddiol a chredoau eraill digrefydd), gyda'r rhannau (digytundeb) yn cael eu darparu gan unigolyn o'u dewis hwy.
 - Gall cyplau sydd eisiau 'bendith' grefyddol neu o unrhyw fath arall eisoes gael hyn ar ôl eu seremoni sifil,
11. Dywedodd nifer o ymatebwyr o wasanaethau cofrestru lleol, o'u profiad hwy, mai am briodasau yn yr awyr agored yr oedd y galw gan gyplau, yn hytrach nag am seremonïau ar gyfer rhai â chred ddigrefydd, bod hwn yn fater ar wahân ac na ddylid drysu rhwng y ddau fater.
12. Roedd rhai ymatebwyr yn bryderus y gallai newid y gyfraith i ganiatáu i sefydliadau newydd a mwy o bobl weinyddu priodas gyfreithiol, gynyddu'r risg o briodasau ffug a phriodasau gorfodol. Gwnaeth nifer o ymatebwyr o wasanaethau cofrestru sylw fod profiad blaenorol wedi dangos fod gangiau trefnedig wrthi byth a beunydd yn chwilio am fannau gwan yn y system, ac oherwydd bod y Gwasanaeth Cofrestru yn gyfrifol ac atebol yn ffurfiol am orfodi deddfau priodas ar ran y Llywodraeth, bod cofrestryddion wedi datblygu arbenigedd sylweddol o ran canfod priodasau ffug. Yr oedd yr arbenigedd hwn wedi datblygu'n rhannol oherwydd nifer y priodasau a oedd yn cael eu gweinyddu.
13. Pryder arall a fynegwyd oedd y gallai ehangu gweinyddu priodasau danseilio sancteiddrwydd ac urddas priodas drwy alluogi cynnal seremonïau amhriodol.
14. Dywedodd rhai ymatebwyr, os oedd y gyfraith am gael ei newid, y dylai adolygiad llawn o gyfraith priodas gael ei gynnal, yn hytrach nac ychwanegu at y cymhlethdod a'r dryswch drwy wneud newid ychwanegol pellach, ac y byddai diwygiad mwy sylfaenol yn cwrdd ag anghenion a gofynion nifer fwy o unigolion.
15. Roedd y rhesymau eraill a roddwyd dros wrthwynebu newid yn cynnwys:
 - Y gallai cynnydd yn y nifer o bersonau yn ymwneud â gweinyddu priodasau a'r posibilrwydd o ehangu lleoliadau lle gallai priodasau gael eu cynnal, beryglu safonau a chywirdeb a diogelwch cofnodion priodas. Yr oedd sylwadau'n cynnwys y gallai agor y trefniadau ymhellach gynyddu risgiau gan gynnwys y risg o dwyll; y byddai angen rhoi ystyriaeth ofalus i sefydlu sut y byddai'r cofnod cyfreithiol yn cael ei storio a sut y gellid cael mynediad ato; ac y byddai hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus gweinyddion yn hanfodol i sicrhau eu bod yn perfformio ar y safon ofynnol ac yn cadw'n gyfredol ag unrhyw newid deddfwriaethol yn ymwneud â chyfraith priodas.
 - Gallai newid yn y gyfraith gymhlethu ymhellach a chynyddu dryswch ynghylch deddfwriaeth priodas sydd eisoes yn dameidiog. Gwnaeth rhai ymatebwyr sylw bod peth dryswch ar hyn o bryd ymysg y cyhoedd ynghylch statws priodasau a weinyddir gan weinyddion annibynnol, ac nad yw rhai gweinyddion yn egluro'n ddigonol yn eu hysbysebion nad yw eu seremonïau yn ddilys dan gyfraith. Y pryder

oedd, pe byddai'r gyfraith yn cael ei newid fel y gallai rhai gweinyddion annibynnol (rhai a achredwyd neu a gymeradwywyd gan sefydliadau cred cofrestredig) weinyddu priodasau cyfreithiol, er na allai eraill wneud hynny o hyd, yna byddai'r dryswch yn cynyddu oni fyddai'r holl fframwaith o amgylch priodas yn cael ei newid er mwyn trwyddedu gweinyddion yn hytrach nac adeiladau.

- Roedd risg o fasnacheiddio gweinyddu priodasau. Yr oedd rhai ymatebwyr o'r farn, oherwydd y gall gweinyddion weithredu fel busnesau annibynnol 'er elw' neu fel unigolion hunangyflogedig yn cael tâl uniongyrchol gan y cwpl sy'n priodi (hyd yn oed os ydynt wedi'u hyfforddi neu eu hachredu gan y BHA neu gorff tebyg), y gallai fod angen rheoli lefel y ffioedd a godir gan weinyddion, a nifer y priodasau a weinyddir ganddynt.
- Byddai'n anodd rheoli a chynnal y gwahaniaeth clir rhwng priodas grefyddol a phriodas sifil.

Materion eraill a godwyd

16. Roedd nifer fechan o ymatebwyr o'r farn fod rhai cyplau eisiau'r opsiwn o gynnwys elfennau ysbrydol mewn seremoni a oedd yn un ddigrefydd. Dywedodd un ymatebydd mai'r rheswm eu bod wedi dewis gwasanaeth dyneiddiol oedd oherwydd eu bod yn ysbrydol ond ddim yn grefyddol a'u bod eisiau seremoni a fyddai'n adlewyrchu hyn. Yr oedd y rhesymau eraill a roddwyd yn cynnwys cyplau eisiau cynnwys rhai traddodiadau neu elfennau o'u diwylliannau eu hunain neu a oedd yn ystyrllon i'w teuluoedd a gwesteion eraill.
17. Dywedodd nifer fechan o ymatebwyr hefyd, er y gallai credoau anffyddwyr (megis dyneiddwyr) gael eu cynnwys fel rhan o seremonïau priodas sifil, ar hyn o bryd nid oes gan gyplau nad ydynt yn diffinio'u hunain fel crefyddol ond sydd â chred ysbrydol neu sydd â ffydd neu gredoau gwahanol i'w gilydd, ac sydd eisiau cynnwys elfen ysbrydol yn eu seremoni briodas neu gael priodas aml-ffydd, ddewis cael priodas gyfreithiol sy'n unol â'u hanghenion, ac na fyddai hyn yn newid pe byddai'r gyfraith yn cael ei newid i ganiatáu seremonïau priodas i rai â chred ddigrefydd. Yr oedd yr ymatebwyr hyn yn cynnwys gweinyddion annibynnol a grwpiau aml-ffydd a oedd yn cynnal y mathau hyn o seremonïau ar hyn o bryd. Roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol:
 - Bod galw am seremonïau cyfreithiol a oedd yn adlewyrchu'r 'tir canol' hwn rhwng crefydd ac anffyddiaeth/dyneiddiaeth ac y dylid gwneud darpariaeth ar gyfer hyn.
 - Mewn cymdeithas amlddiwylliannol, aml-ffydd ac sy'n gynyddol fwy seciwlar, bydd y niferoedd sy'n dymuno seremoni fel hyn yn cynyddu.
 - Dylai unrhyw newid yn y gyfraith gael ei ymestyn ymhellach fel y gall seremonïau digrefydd fod yn hyblyg o ran cynnwys cysyniadau ysbrydol.
 - Yn lle newid y gyfraith i ganiatáu seremonïau ar wahân i rai â chred ddigrefydd, dylai cwmpas seremonïau priodas sifil gael ei ehangu i gynnwys elfennau o gred grefyddol a chredoau digrefydd.
18. Gwnaeth un ymatebydd sylw, os byddai priodasau i rai â chred ddigrefydd yn cael eu cyfreithloni, dylid cael cymdeithas ar gyfer seremonïau seciwlar a fyddai'n cael ei chydabod yn gyfreithiol ac yn cael ei monitro gan y Llywodraeth. Gallai'r gymdeithas hon sicrhau bod unrhyw un a oedd yn cynnal seremoni briodas neu seremoni partneriaeth sifil â chymhwyster ffurfiol i wneud hynny ac yn derbyn hyfforddiant parhaus. Yn ogystal, gallai'r gymdeithas weithredu fel ombwdsmon i fonitro gweithredoedd gweinyddion.

19. Dywedodd cyfran fechan o ymatebwyr y dylai pob priodas gyfreithiol fod yn seciwlar, gyda seremonïau crefyddol a seremonïau cred wedi eu gwahanu oddi wrth seremonïau sifil cyfreithiol a chontractau, fel y maent mewn rhai gwledydd Ewropeaidd eraill. Y prif resymau a roddwyd oedd y byddai hyn yn darparu ar gyfer mwy o gamau diogelwch yn erbyn priodasau ffug a phriodasau gorfodol, bod y duedd gymdeithasol yn bennaf tuag at boblogaeth ddigrefydd, a bod risg gynyddol o ystod o gyrff amhriodol yn gallu cwrdd â'r diffiniad o sefydliad crefyddol i ddibenion gweinyddu priodasau.

Cwestiwn 2 – Pa sefydliadau ar wahân i ddyneiddwyr fyddai'n gallu cwrdd â'r diffiniad o sefydliadau cred heb fod yn rhai crefyddol a nodir yn Adran 14 Deddf Priodasau (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013, ac ar ba sail?

20. Daeth y nifer uchaf o ymatebion i'r cwestiwn hwn (62%) gan y rhai a ddywedodd nad oeddynt yn ymwybodol o unrhyw sefydliad ar wahân i sefydliad dyneiddiol a fyddai'n cwrdd â'r meini prawf.
21. Yr oedd y sefydliadau neu fathau o grwpiau ac eithrio dyneiddwyr a nodwyd gan ymatebwyr fel rhai a allai o bosibl fod yn gymwys yn cynnwys y canlynol:

Cymdeithas y Rhesymolwyr
Y Gymdeithas Seciwlar Genedlaethol
One Spirit Interfaith Foundation (Gweinidogion ac Arweinyddion aml-ffydd)
Grwpiau Paganaid
Y Seiri Rhyddion
Cymdeithasau gweinyddion a hyfforddwyd yn broffesiynol a sefydliadau sy'n darparu seremonïau megis Cymdeithas Gweinyddion Proffesiynol, Cymdeithas Gweinyddion Sifil Annibynnol, Civil Ceremonies a One Life Ceremonies
Noethlymunwyr
Cymdeithasau Cyfeillgar
The Sunday Assembly

22. Dywedodd nifer o ymatebwyr bod risg y gallai unrhyw grŵp, gan gynnwys rhai gyda dilynwyr 'cwl't' o bosibl fod yn gymwys os gallent ddangos mai eu pwrpas oedd hyrwyddo credoau a'r foeseg gysylltiedig â'r credoau hynny, neu y gallent lwyddo i gael penderfyniad y bu gwahaniaethu yn eu herbyn os byddent yn cael eu heithrio rhag gweinyddu seremonïau cyfreithiol. Yr oedd y grwpiau a nodwyd fel risg yn cynnwys mudiadau gwleidyddol, Marchogion Jedi, Hells Angels, grwpiau wedi'u radicleiddio a gangiau troseddol cysylltiedig â phriodasau gorfodol. Yr oedd un ymatebydd o'r farn fod llawer o fudiadau, gan gynnwys grwpiau elusennol a grwpiau ymgyrchu, a allai gwrdd â'r diffiniad ac a fyddai o bosibl yn awyddus i weinyddu seremonïau priodas er mwyn codi arian neu ddenu cyhoeddusrwydd.
23. Roedd pryderon bod diffiniad adran 14 yn ddigon amwys neu amhenodol i fod yn agored i ddehongliad, gan ei gwneud yn anodd nodi gyda sicrwydd pa sefydliadau ar wahân i grwpiau dyneiddiol a allai gwrdd â'r meini prawf neu gael eu heithrio ganddynt. Gwnaeth un ymatebydd sylw y gallai fod anhawster cynhenid o ran sicrhau bod y meini prawf yn ddigon eang i gynnwys rhai grwpiau cred gwirioneddol ond yn ddigon cul i eithrio grwpiau sydd o bosibl yn fwy ymylol neu eithafol.

24. Yr oedd lleiafrif bychan o ymatebwyr o'r farn y dylai gweinyddion annibynnol cymwys gael eu cofrestru a'u hawdurdodi i gynnal seremonïau cyfreithiol yn hytrach nac adeiladau neu sefydliadau.
25. Codwyd y mater o ehangu'r diffiniad i gynnwys credoau 'ysbrydol' gan nifer o ymatebwyr. Dywedodd rhai ymatebwyr y dylid diwygio'r diffiniad i wneud darpariaeth i weinyddion gynnal seremonïau aml-ffydd neu seremonïau ag elfen ysbrydol neu grefyddol nad oeddynt yn arddel un grefydd neu gred benodol. Gwnaed y pwynt nad yw'n rhwydd diffinio rhai credoau fel crefyddol neu ddigrefydd, ac y gallai Bwdhyddion neu Jainiaid (a allai ystyried bod ganddynt fwy o ffocws ar foesau na chrefydd), theosoffistiaid a mudiadau digrefydd sy'n canolbwyntio ar ysbrydolrwydd fod yn gymwys.
26. Mynegodd un ymatebydd bryder, os mai Cymdeithas Dyneiddwyr Prydain oedd yr unig gymdeithas fyddai'n cael caniatâd i gynnal seremonïau i rai â chred ddigrefydd o ganlyniad i newid yn y gyfraith a'r defnydd o rai meini prawf cymhwys, byddai hyn yn creu monopoli annheg ac yn methu â diwallu anghenion y llu cyplau nad oes ganddynt gysylltiad â dyneiddiaeth ond sydd yn syml iawn eisiau seremoni briodas bersonol mewn lleoliad a ddymunant hwy.
27. Dywedodd cyfran fechan o ymatebwyr y dylai unrhyw sefydliad allu cynnal seremonïau cyfreithiol ar yr amod eu bod yn hyrwyddo credoau digrefydd/anffyddiaeth, yn hyrwyddo egwyddorion moesol y tu hwnt i un mater yn unig, neu yn fudiad seciwlar gyda siarter neu feini prawf aelodaeth ar gyfer credoau yn seiliedig ar foeseg a moesau.
28. Yr oedd un ymatebydd o'r farn nad oedd sail resymegol dros freinio syniadau a chredoau athronyddol goruwch safbwyntiau eraill, er enghraifft safbwyntiau gwleidyddol neu ddiwylliannol, y mae pobl yn seilio'u bywydau arnynt.

Cwestiwn 3 – A ddylai rhai meini prawf penodol gael eu hychwanegu i gyfyngu ar y diffiniad o sefydliadau cred digrefydd yn adran 14 Deddf Priodasau (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013 i sicrhau bod y mathau o sefydliadau fydd yn gallu gweinyddu priodasau i rai â chred ddigrefydd, yn rhai priodol?

Os felly, pa fathau o sefydliadau sy'n amhriodol yn eich barn chi?

	Yr Holl Ymatebwyr	
	Nifer	Canran
Dylai	324	17.0%
Na ddylai	54	2.8%
Ddim yn gwybod/ Ddim yn dweud	1523	80.1%
Cyfanswm	1901	100%

29. Roedd peth gorgyffwrdd rhwng yr ymatebion i gwestiynau 2, 3 a 5.
30. O'r 20% o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, dywedodd y mwyafrif y dylid ychwanegu meini prawf i sicrhau bod y mathau o sefydliadau a oedd yn gweinyddu priodasau a'r seremonïau oedd yn cael eu cynnal yn briodol.

31. Yr oedd nifer uchel o'r ymatebwyr hyn o'r farn, er mwyn sicrhau nad oedd sefydliad priodas yn cael ei fychanu, na ddylai priodasau gael eu gweinyddu gan sefydliadau masnachol neu er elw. Teimlai llawer o ymatebwyr hefyd y dylai unrhyw sefydliad fyddai'n cael caniatâd i weinyddu priodasau fod yn elusen neu'n gweithio er budd y cyhoedd. Gwnaed y pwynt gan un ymatebydd bod marchnad o fath wedi datblygu ar gyfer seremonïau sifil (gan y gallai cyplau a oedd yn dewis priodas sifil ddewis lleoliad masnachol lle y gallent gynnal y seremoni a'r wledd briodas) ond fod hyn yn wahanol o gyflwyno marchnad fasnachol ar gyfer gweinyddu priodasau rhwng gwahanol fathau o seremoni.
32. Dywedodd nifer o ymatebwyr na ddylai sefydliad oedd â'r prif neu'r unig ddiben o gynnal seremonïau fod yn gymwys, neu fe allai cymdeithasau gael eu sefydlu ddim ond er mwyn cymryd mantais o'r newid yn y gyfraith.
33. Mae'r tabl isod yn nodi'r prif fathau o sefydliadau a oedd yn amhriodol i weinyddu priodasau ym marn yr ymatebwyr, yn ogystal â'r math o ofynion y dylai sefydliadau gwrdd â hwy.

	Nifer yr ymatebion
Eithrio cyrff er elw/sefydliadau masnachol	217
Dylai'r sefydliad fod yn gweithredu er budd y cyhoedd/fod yn Elusen	154
Eithrio sefydliadau nad yw hyrwyddo neu gefnogi credoau seciwlar/dyneiddiol/anffyddiaeth yn brif ddiben iddynt	50
Dylai sefydliadau fod â rhyw fath o gred foesol, foesegol neu athronyddol	43
Eithrio grwpiau gwleidyddol a grwpiau pwyso un-pwnc	18
Eithrio Trekkies, Marchogion Jedi, grwpiau ffugwyddorau, sgowtiaid/clybiau ieuencid, clybiau pêl-droed, 'cwltiau' a grwpiau cyffelyb	12
Eithrio sefydliadau eithafol/sy'n pregethu casineb a sefydliadau sy'n hyrwyddo gwahaniaethu ac anghydraddoldeb	17
Dylai sefydliadau allu dangos eu bod wedi'u cofrestru mewn rhyw ffordd/yn cael eu llywodraethu a'u rheoleiddio'n briodol/bod â safonau proffesiynol/bod a nifer penodol o aelodau	15
Dylai sefydliadau fod wedi hen sefydlu/bod â chefnidir neu hyfforddiant ym maes gweinyddu seremonïau	22

34. Yr oedd oddeutu 14% o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn anghytuno â chyfyngu'r diffiniad ymhellach.
35. Yr oedd lleiafrif bychan iawn yn credu na ddylid cael unrhyw gyfyngiadau na rheoleiddio o unrhyw fath, fel y byddai unrhyw grŵp yn cael caniatâd i weinyddu priodasau. Gwnaeth nifer o ymatebwyr sylwadau ei bod yn anodd neu'n amhosibl cyfyngu ar y diffiniad heb fod mewn perygl o wahaniaethu yn erbyn rhai mathau penodol o sefydliad a oedd yn rhannu ac yn hyrwyddo cred gyffredin.

36. Cododd nifer o ymatebwyr y mater o sefydliadau ymgyrchu a chymdeithasau sy'n hyrwyddo achos penodol o bosibl yn cael eu cofrestru. Gwnaeth un ymatebydd sylw bod y papur ymgynghori'n awgrymu efallai na fyddai sefydliadau o'r fath yn briodol ar gyfer gweinyddu priodasau, a bod Cymdeithas Dyneiddwyr Prydain, yn ogystal â sefydliadau crefyddol sydd ar hyn o bryd yn cynnal seremonïau priodas cyfreithiol, yn ymgyrchu dros achosion ac yn eu hyrwyddo. Tra bod rhai ymatebwyr o'r farn nad oedd yn briodol i sefydliadau sy'n ymgyrchu weinyddu priodasau, gwnaeth eraill sylwadau fod hyrwyddo achos yn egwyddor sylfaenol i fod yn sefydliad cred neu seiliedig ar werthoedd, ac mai dim ond priodas sifil allai llynu'n llwyr at unrhyw feini prawf a fyddai'n eithrio ymgyrchu neu hyrwyddo achos. Yn y cyswllt hwn, awgrymwyd y gallai fod angen cymryd gofal wrth lunio meini prawf (er enghraifft y gallai geiriau megis 'yn unig' fod yn ofynnol i eithrio rhai grwpiau), ac na fyddai angen eithrio sefydliadau ymgyrchu'n benodol pe byddai camau diogelu eraill yn cael eu defnyddio.
37. Yr oedd materion eraill a godwyd ynghylch y mathau o sefydliadau a allai gynnal priodasau cred yn cynnwys:
- Dylai unrhyw sefydliad sy'n dymuno cael ei gofrestru i gynnal seremonïau priodas allu dangos nad ydynt yn cael eu diffinio'n bennaf gan yr hyn y maent yn ei wrthwynebu, a'u bod yn hyrwyddo egwyddorion moesol a moesegol cadarnhaol sy'n gydnaws â thrin priodas fel sefydliad pwysig a gwerthfawr yn gymdeithasol a ddylai gael ei ddathlu'n gyhoeddus gydag urddas priodol.
 - Dylai'r diffiniad o 'digrefydd' gael ei gryfhau er mwyn eithrio sefydliadau sy'n cyfeirio at syniadau sy'n gyfwerth â duw(iau) (megis Bod Goruchaf), neu sy'n cynnwys darpariaeth i ymlynwyr gredu mewn duw fel rhan o system gwerthoedd y sefydliad (fel drwy Addewid y Sgowntiaid neu'r Geidiaid).
 - Dylai unrhyw ddiffiniad fod yn ddigon cadarn i gynnwys nid yn unig sefydliadau sydd eisoes yn bodoli ond hefyd sefydliadau a allai gael eu sefydlu yn dilyn gweithredu, oherwydd mae'n anrffod y bydd sefydliad na ragwelwyd mohono yn codi.
 - Rhaid i'r meini prawf fod yn wrthrychol a galw am ystyriaeth i'r cydbwysedd rhwng budd a niwed, gyda chefnogaeth tystiolaeth. Mae arweiniad y Comisiwn Cydraddoldeb ar ystyr cred ar gyfer Deddf Cydraddoldeb 2010 yn fan cychwyn synhwyrol – yn ei hanfod, unrhyw system gred nad yw'n ddibwys.
 - Dylai unrhyw sefydliad y caniateir iddo gynnal seremonïau priodas allu dangos y gall gynnig y ddarpariaeth hon ledled Cymru a Lloegr fel y gall cyplau ddewis seremoni gred heb ormod o drafferthion daearyddol. Byddai hyn yn golygu cofrestru'r sefydliadau hynny â chred ddigrefydd sy'n gweithredu ar lefel genedlaethol yn unig yn hytrach na mudiadau lleol neu ganghennau lleol o sefydliadau cenedlaethol.
 - Gallai statws elusennol gau allan rai sefydliadau a fyddai'n rhy fach i gwrdd â'r meini prawf elusennol, ac efallai na fyddent bob amser yn briodol gan y gall hyn gyfyngu ar weithgareddau eraill sefydliadau.
 - Byddai angen ystyried sut y byddai unrhyw feini prawf yn cael eu monitro a'u gorfodi'n effeithiol a phwy fyddai'n gwneud hyn, a pha gamau allai gael eu cymryd pe byddai unigolyn neu sefydliad yn gweithredu y tu allan i'r meini prawf hyn. Mae heriau i'r meini prawf yn debygol ac efallai y bydd angen i'r Uchel Lys eu datrys.

Cwestiwn 4 – Ymhle y dylai priodasau cred gael eu cynnal, os caniateir hwy?

38. Atebwyd y cwestiwn hwn gan 97% o'r ymatebwyr. Yr oedd mwyafrif y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn ddyneiddwyr, neu yr oedd yn ymddangos ei bod yn defnyddio canllawiau ar ateb cwestiynau'r ymgynghoriad a ddarparwyd gan y BHA i'w haelodau a'i chefnogwyr.
39. Mae'r tabl isod yn dangos nifer a chanran yr ymatebwyr a oedd yn cefnogi pob un o'r tri opsiwn a nodwyd yn y papur ymgynghori a'r rhai a wnaeth sylwadau ond heb gefnogi unrhyw un o'r opsiynau a ddarparwyd.

Yr Opsiwn Gorau	Yr Holl Ymatebwyr	
	Nifer	Canran
Opsiwn 1	21	1.1%
Opsiwn 2	1734	94.1%
Opsiwn 3	36	2.0%
Arall/Dim gwahaniaeth	52	2.8%
Cyfanswm	1843	100%

Opsiwn 1 – Cofrestru Adeiladau sy'n eiddo i'r sefydliad cred neu lle y mae'r sefydliad yn cyfarfod i fynegi ei gredoau fel grŵp

40. O'r rhai a wnaeth sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, yr oedd ychydig dros 1% o'r farn mai hwn oedd yr opsiwn gorau. Dyma'r prif resymau a roddwyd:
- Pe byddai seremonïau i rai â chred ddigrefydd yn cael eu caniatáu mewn unrhyw fan ar wahân i adeiladau sy'n eiddo i'r corff cred neu'n cael eu defnyddio'n rheolaidd ganddo, byddai hyn yn creu anghydraddoldeb â'r mwyafrif o sefydliadau a chyplau crefyddol.
 - Mae'r system bresennol yn cyfrannu tuag at bwysleisio natur gyhoeddus priodas, tra nad yw Opsiwn 2 (lleoliadau digyfngiad) yn darparu, yn ymarferol nac yn symbolaidd, yr amod y dylai priodasau gael eu cynnal mewn mannau sydd yn hygyrch ac yn hawdd eu canfod gan y cyhoedd.
 - Byddai cofrestru adeiladau yn rhoi i'r sefydliadau dan sylw ganolfan adnabyddadwy a gallai helpu i sicrhau diogelwch cofrestrau a thystysgrifau priodas.
41. Gwnaeth nifer o ymatebwyr sylwadau gan nad oes gan ddyneiddwyr, ac o bosibl eraill â chredoau digrefydd, adeiladau, nad oedd y syniad y dylai priodasau i rai â chred ddigrefydd gael eu cynnal yn eu hadeiladau cofrestredig yn ymarferol nac yn bosibl.
42. Yr oedd yr opsiwn hwn yn cael ei wrthwynebu hefyd ar y sail na fyddai'n gwneud darpariaeth i gyplau dyneiddiol briodi mewn lle a oedd yn ystyrion iddynt hwy'n bersonol, ac y byddai hyn yn anghydraddoldeb â chyplau crefyddol sy'n gallu priodi yn eu man addoli.

Opsiwn 2 – Dim Cyfngiadau (gallai seremonïau gael eu cynnal yn unrhyw le, ac eithrio adeiladau crefyddol, sy'n ystyrion i'r cwpl, gan gynnwys yn yr awyr agored)

43. Roedd y mwyafrif o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn (oddeutu 94%) o blaid cynnal seremonïau priodas cred mewn lleoliadau digyfngiad. Yr oedd nifer uchel iawn o'r farn mai dyma'r unig opsiwn a fyddai'n darparu triniaeth gyfartal â grwpiau crefyddol, a bod y ddeddf gyfredol yn gwahaniaethu yn erbyn cyplau dyneiddiol gan nad yw'n caniatáu iddynt briodi mewn man sy'n ystyrllon iddynt hwy'n bersonol. Yr oedd y rhesymau a roddwyd yn cynnwys:
- Nid yw'n wir y byddai caniatáu i ddyneiddwyr weinyddu priodasau mewn amrywiaeth o leoliadau yn achosi anfantais i grwpiau eraill gan mai'r pwynt cymhariaeth yw natur ystyrllon y lleoliad: i berson crefyddol y lleoliad hwnnw yw ei eglwys neu fan addoli arall, i gwpl dyneiddiol bydd yn rhywle arall – mae trin y ddau'n gyfartal yn golygu caniatáu i'r ddau ohonynt gynnal eu priodas yn y man ystyrllon.
 - Mae'r syniad y byddai gan sefydliadau cred digrefydd fantais dros sefydliadau sydd wedi'u cyfyngu o ran ble y gallant gynnal seremonïau yn darostwng urddas priodas, gan ei fod yn sefydliad difrifol ac nid yn ddiwydiant neu'n farchnad.
 - Gan fod y gyfraith yn caniatáu seremonïau digyfngiad ar gyfer Iddewon a Chrynwyr heb unrhyw drafferthion, does dim rheswm cyfyngu ar briodasau i rai â chred ddigrefydd, gan y byddai'n annheg gwneud hynny.
44. Ni chafodd yr hyn a olygir wrth "leoliad ystyrllon" ei ddiffinio yn yr ymatebion ac eithrio ei fod yn lle sy'n bersonol ystyrllon i'r cwpl sy'n priodi. Dywedodd rhai ymatebwyr bod lleoliadau awyr agored ar gyfer priodasau yn bwysig i ddyneiddwyr am fod dyneiddiaeth yn dathlu pwysigrwydd y byd hwn a dynoliaeth fel rhan o natur, lle bo seremonïau crefyddol yn cael eu cynnal mewn mannau sydd wedi'u neilltuo i deyrnas neu fod arall. Gwnaeth llawer o ymatebwyr a ddisgrifiodd briodas ddyneiddiol sylwadau bod y lleoliad wedi bod o'r arwyddocâd mwyaf. Yr oedd yr enghreifftiau o leoliadau priodas a ddisgrifiwyd fel rhai ystyrllon i gyplau yn cynnwys eu gerddi a'u cartrefi eu hunain, mannau lle roeddynt wedi bod ar wyliau, mannau lle yr oedd llwch aelodau o'r teulu wedi'u gwasgaru, mannau lle yr oeddynt wedi cwrdd, a mannau eraill oedd yn gysylltiedig ag atgofion arbennig neu a oedd ag arwyddocâd arbennig iddynt hwy a'u teuluoedd.
45. Yr oedd nifer o ymatebwyr o'r farn mai'r cwpl a ddylai benderfynu lle y dylai'r seremoni cael ei chynnal ac na ddylai'r dewis hwnnw gael ei gyfyngu gan gyfraith. Yr oedd lleiafrif bychan iawn o'r farn y dylai'r dewis fod yn nwylo'r corff cred.
46. Gwnaeth rhai ymatebwyr sylw bod priodasau yn yr awyr agored yn gweithio'n dda ac yn boblogaidd mewn mannau eraill gan gynnwys yr Alban ac felly y dylent fod ar gael yng Nghymru a Lloegr hefyd. Credai cyfran fechan o ymatebwyr y gallai priodasau yn yr awyr agored leihau costau i gyplau drwy roi mwy o ddewis iddynt o ran lleoliadau, gan gynnwys gallu defnyddio'u cartrefi a'u gerddi eu hunain neu rai teulu a chyfeillion.
47. Gwnaeth nifer o ymatebwyr sylwadau, os byddai lleoliadau yn yr awyr agored yn cael eu caniatáu ar gyfer priodasau cred yna dylai hyn fod yn berthnasol i holl seremonïau priodas, neu fe fyddai'r Llywodraeth yn deddfu i gyflwyno anghysondeb ac anghydraddoldeb arall o fewn cyfraith priodas a byddai'n gwahaniaethu yn erbyn sefydliadau a chyplau a oedd yn cael eu cyfyngu o ran lle y gallai priodasau gael eu cynnal.
48. Cafodd y potensial ar gyfer diwygio mwy sylfaenol ei godi gan nifer o ymatebwyr. Roedd hyn yn nhermau:

- Deddfu'n ehangach i ganiatáu priodasau yn yr awyr agored i bob cwpl.
 - Symud i system lle y byddai gweinyddion unigol yn cael eu cofrestru ar gyfer gweinyddu priodasau, yn hytrach nag adeiladau.
 - Cyflwyno rhagarweiniad sifil cyffredinol ar gyfer pob math o briodas er mwyn gwahanu rhan gyfreithiol priodas oddi wrth seremonïau fel y gallai seremonïau priodas gael eu cynnal ble bynnag y dymunai'r cyplau, yn cael eu gweinyddu gan weinydd o'u dewis hwy.
49. Yr oedd nifer o ymatebwyr yn gwrthwynebu caniatáu i sefydliadau cred briodi cyplau mewn lleoliadau digyfngiad gan eu bod o'r farn y byddai hyn yn arwain pobl i hawlio eu bod yn dilyn system gred ddigrefydd ddim ond am fod hynny'n cynnig cyfle iddynt briodi yn yr awyr agored. Rhesymau eraill a roddwyd gan ymatebwyr a oedd yn erbyn neu yn pryderu ynghylch cynnal priodasau cred mewn lleoliadau digyfngiad oedd y gallai hyn beryglu cadw cofrestrau priodas yn ddiogel; y byddai'n anodd cwrdd â safonau iechyd a diogelwch er mwyn sicrhau diogelwch y rhai a oedd yn bresennol ac yn cymryd rhan yn y seremoni; ac y byddai'n darostwng urddas priodas, gyda chyplau'n gallu priodi mewn manau megis archfarchnadoedd.
50. Cyflwynwyd cynnig penodol gan Fwrdd Cofrestru De Ddwyrain Lloegr, y cyfeiriwyd ato wedyn a'i gefnogi gan bedwar gwasanaeth cofrestru arall a'r Panel Cofrestru Cenedlaethol. Y cynnig hwnnw yw y dylai cwmpas trwyddedau ar gyfer adeiladau a gymeradwywyd ar gyfer seremonïau priodas sifil gael ei ymestyn i gynnwys unrhyw ofod awyr agored sydd ym mherchnogaeth ac yn ffinio â'r adeiladau hyn, megis gardd gwesty neu draeth preifat, a fyddai'n caniatáu i gyplau briodi yn yr awyr agored. Y rhesymau a roddwyd yw bod galw cyffredinol gan y cyhoedd am briodasau yn yr awyr agored (gyda llawer o leoliadau trwyddedig yn ceisio ymateb i'r galw hwn drwy fuddsoddi mewn strwythurau allanol sydd ond y dim yn llwyddo i gwrdd â'r gofynion cyfreithiol), ac y byddai hyn yn rhoi mwy o ddewis i gyplau ac yn llenwi'r 'bwllch' mwyaf arwyddocaol yn y ddarpariaeth bresennol o fewn y trefniadau llywodraethu a'r camau diogelu sefydledig.
51. Gwnaeth yr Eglwys yng Nghymru hefyd sylw y gellid ystyried tiroedd lleoliadau trwyddedig os oes galw gwirioneddol am seremonïau yn yr awyr agored, ac y mae o'r farn, os caiff yr ystod o leoliadau ei hehangu, y dylai'r ddarpariaeth hefyd fod yn berthnasol i briodasau crefyddol.

Opsiwn 3 – Adeiladau cymeradwy

52. Cefnogwyd yr opsiwn hwn gan 2% o'r ymatebwyr. Y prif resymau a roddwyd oedd y dylai'r un cyfyngiadau, camau diogelwch a safonau ag ar gyfer priodasau sifil fod yn berthnasol; y byddai caniatáu cynnal priodasau i rai â chred ddigrefydd yn yr awyr agored yn cyflwyno anghydraddoldeb i sefydliadau eraill sy'n gweinyddu priodasau ac i'r rhan fwyaf o gyplau; ac mai dyma'r opsiwn gorau ar gyfer cynorthwyo i sicrhau diogelwch cofrestrau priodas.
53. Gwnaeth y BHA bwynt penodol, yn ogystal â pheidio â chaniatáu i ddyneiddwyr briodi mewn man sy'n ystyrlon iddynt hwy, y byddai cyfyngu priodasau cred i adeiladau cymeradwy yn creu anfantais ac anghydraddoldeb newydd i grwpiau crefyddol, gan y byddai pobl â chredoau digrefydd yn gallu cael priodas *gred* mewn adeiladau cymeradwy ond na fyddai hynny'n bosibl i bobl grefyddol. Barn y BHA yw, gan fod dyneiddiaeth yn "grefydd neu gred" dan y gyfraith ac nad oes gwahaniaethu rhyngddi â

chrefydd yn y rhan fwyaf o gyd-destunau cyfreithiol, byddai caniatáu i adeiladau cymeradwy gynnal priodasau dyneiddiol yn creu anghysondeb difrifol.

54. Mynegodd Eglwys Loegr hefyd bryder y byddai'n wahaniaethol ar sail ffydd a chred i alluogi dyneiddwyr i weinyddu priodasau mewn lleoliadau lle na châi gweinyddion nad ydynt yn rhai sifil, wneud hynny. Gwnaethant sylw, os byddai'r Llywodraeth yn dymuno bwrw ymlaen ag opsiwn 3, y byddent eisiau gweld ymgynghori ehangach ynghylch a ddylai gweinyddion sifil, pe dymunai eu henwad iddynt wneud hynny, allu cynnal priodasau mewn adeiladau cymeradwy.
55. Yr oedd lleiafrif bychan iawn o ymatebwyr o'r farn y dylai cartrefi preifat allu gwneud cais am gymeradwyaeth dros dro, unwaith yn unig, er mwyn ehangu'r dewis o adeiladau cymeradwy.

Cwestiwn 5 – Mae'r Llywodraeth yn gwahodd eich barn ar yr egwyddor o sefydlu profion y byddai'n rhaid i sefydliadau cred gwrdd â hwy cyn y gellid eu hawdurdodi i weinyddu priodasau, a beth allai'r profion hynny fod.

56. Yr oedd mwyafrif y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn o'r farn y dylai profion neu feini prawf cymhwysu fod yn ofynnol i sefydliadau cred fel rhan o'r broses awdurdodi. Y prif resymau a roddwyd oedd y byddai meini prawf o'r fath:
- Yn sicrhau bod seremonïau yn gyfreithlon, yn urddasol ac o safon briodol.
 - Yn gwarchod rhag priodasau ffug a phriodasau gorfodol.
 - Yn sicrhau bod cofnodion priodasau yn gywir ac yn ddiogel.
 - Yn cau allan sefydliadau masnachol ac yn gyffredinol yn atal creu marchnad ar gyfer gweinyddu priodasau.
57. Credai llawer o ymatebwyr mai'r ffordd orau o wneud hyn oedd drwy ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau:
- fod wedi hen sefydlu ac yn sefydlog;
 - bod â phrofiad o gynnal seremonïau;
 - bod â statws elusennol;
 - bod â systemau cadarn yn eu lle ar gyfer dewis, hyfforddi a goruchwylio gweinyddion;
 - cynnal seremonïau priodas sydd wedi'u gwreiddio yn eu system gred (er mwyn cyfiawnhau cydnabyddiaeth gyfreithiol a gwarchod ymhellach yn erbyn elwa'n fasnachol ar y diwygiad).
58. Gwnaeth nifer uchel o'r ymatebwyr hyn sylw bod y system sydd yn ei lle yn yr Alban yn darparu model synhwyrol.
59. Mae'r mathau o feini prawf cymhwysu yr oedd ymatebwyr o'r farn y dylai sefydliadau cred digrefydd gwrdd â hwy er mwyn gweinyddu priodasau yn cynnwys y rhai a nodir yn y tabl isod.

Meini prawf cymhwysu	Y nifer a roes yr ymateb hwn
-----------------------------	-------------------------------------

Meini prawf cymhwyso	Y nifer a roes yr ymateb hwn
Mudiad sefydledig	40
Wedi bodoli am gyfnod sylweddol o amser/hyd at a thros 10 mlynedd	128
Elusennau cofrestredig	80
Statws elusenol	92
Elusen bona fide/cwmni yn talu trethi ac yswiriant priodol	12
Cwmni Buddiannau Cymunedol	3
Sefydliad yn cael ei reoleiddio gan gorff cydnabyddedig	4
Rhaid i'r sefydliad ddangos ei fod yn cynnal seremonïau priodas sydd wedi'u gwreiddio yn ei system gred	98
Mae gan y sefydliad gredoau, moesau a gwerthoedd sydd wedi hen sefydlu, ac sy'n cynnwys cefnogaeth i briodas a'r hyn y mae'n ei olygu i gymdeithas	27
Mae'r sefydliad yn gallu cwrdd â phrawf cydraddoldeb/nid yw'n torri cyfraith cydraddoldeb	7
Mae'r sefydliad yn gallu cwrdd â gofynion cyfraith briodas bresennol	19
Profiad o weinyddu seremonïau/wedi bod yn cynnal seremonïau am gyfnod sylweddol o amser	19
Profiad o weinyddu seremonïau am 5 mlynedd neu fwy	99
Profiad o weinyddu seremonïau am 10 mlynedd neu fwy	1
Gall y sefydliad ddangos cymhwysedd o ran cyflwyno/mae ganddo systemau llywodraethu a gweinyddu clir a phriodol yn eu lle	27
Sefydliad yn seiliedig ar aelodaeth/mae gan y sefydliad drefniadau aelodaeth cadarn	9
Isafswm neu nifer penodol o aelodau (i helpu i warchod yn erbyn creu grwpiau i weinyddu seremonïau er elw)	7
Mae gan y sefydliad weinyddion sydd wedi'u dewis/cymhwyso/achredu/hyfforddi/goruchwyllo/yswiro'n briodol	171
Mae'r sefydliad yn darparu hyfforddiant gorfodol ar briodasau ffug a phriodasau gorfodol	28
Mae'r sefydliad yn gallu dangos fod gweinyddion yn trafod y briodas sydd i ddod gyda'r cwpl / yn cynnal cwnsela cyn-priodas ar fwy nac un achlysur gyda'r cwpl	2
Gall y sefydliad gynnig darpariaeth ar draws Cymru a Lloegr	1

60. Yr oedd cyfran fechan o ymatebwyr o'r farn nad oedd angen profion a chyfyngiadau, neu mai'r unig brofion angenrheidiol ddylai fod y rhai a bennir ac a osodir gan y sefydliad ei hun.

61. Nododd nifer o ymatebwyr y dylai unrhyw brofion neu feini prawf gael eu safoni a'u cymhwyso yn yr un modd ar draws darparwyr seremonïau priodas cred, crefyddol a sifil, neu byddai anghysondebau ac anghydraddoldebau pellach yn cael eu cyflwyno i'r system.
62. Gwnaeth un ymatebydd sylw nad oedd angen hyfforddiant, achrediad a monitro safonedig ar draws yr holl ddarparwyr, ond y dylid cadw at safonau sylfaenol, ac y dylai'r systemau sydd eisoes yn eu lle dan y Gwasanaeth Cofrestru (gan gynnwys y Strategaeth Hyfforddi Genedlaethol a'r Gweithgor Hyfforddi Cenedlaethol) allu darparu modelau priodol o arfer da i weinyddion o grwpiau cred heb fod yn un grefyddol.
63. Mynegodd rhai ymatebwyr ansicrwydd a phryder ynghylch sut y byddai profion yn cael eu cymhwyso'n effeithlon a chyson ac yn destun craffu allanol, rôl pwy fyddai gwneud hyn, a pha gamau allai gael eu cymryd os byddai sefydliad neu unigolion yn methu â gweithredu o fewn meini prawf a gytunwyd. Yr oedd y pwyntiau a'r pryderon penodol yn cynnwys:
 - Gallai fod yn anodd a chymhleth gwneud profion yn effeithlon.
 - Byddai angen profion rheolaidd i sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal, gan gynnwys oherwydd newid mewn personél.
 - Byddai angen system gadarn ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth a fyddai'n cynnwys cosbau am ddiffyg cydymffurfio.
 - Yr oedd angen rhoi ystyriaeth i ba faich ychwanegol allai syrthio ar ysgwyddau gwasanaethau cofrestru yn nhermau'r posibilrwydd o wirio, hyfforddi neu gynghori sefydliadau a gweinyddion.
64. Roedd nifer fechan o ymatebwyr o'r farn mai'r cam diogelu gorau fyddai presenoldeb cofrestrydd sifil ym mhob seremoni, a fyddai'n gallu cofrestru'r briodas a helpu i sicrhau nad oedd y briodas a oedd yn cael ei chynnal yn un ffug nac yn un orfodol.
65. Mynegodd rhai ymatebwyr bryder ynghylch y ffaith bod elfen fasnachol i weinyddu priodasau na fyddai'n cael ei dileu drwy gyfyngu cofrestru i elusennau neu sefydliadau dielw. Y pryder yw, os byddai sefydliad cofrestredig yn un dielw nad dyna fyddai'r sefyllfa o angenrheidrwydd yng nghyswllt y gweinyddion fyddai'n cael eu hachredu neu eu cymeradwyo ganddo, a bod risg y byddai rhai gweinyddion annibynnol yn datgan eu bod yn ddyneiddwyr, er enghraifft, er mwyn cynnal seremonïau cyfreithiol dan gyfraith ac elwa'n ariannol. Dywedodd un ymatebydd y codir tâl ar weinyddion annibynnol am hyfforddiant ar y sail fod dod yn weinydd yn ffordd o wneud incwm i'r unigolyn sy'n ymgymryd â'r hyfforddiant, a chwestiynwyd a oedd y system seiliedig ar weinyddion yn yr Alban yn cael ei darparu ar sail ddielw mewn gwirionedd neu a oedd modd gorfodi hyn yn llwyr.
66. Er bod llawer o ymatebwyr o'r farn bod gwerth mewn mynnu bod sefydliadau yn rhai sydd wedi hen sefydlu, bod â statws elusennol, a bod â phrofiad o weinyddu seremonïau, dywedodd cyfran fechan y gallai sefydliadau newydd, llai, fodoli a oedd er hynny'n sefydliadau cred gwirioneddol ac a fyddai'n cael eu heithrio gan feini prawf o'r fath ac yn ei chael yn anodd iawn, neu'n cymryd blynyddoedd lawer i ddatblygu record dda.
67. Dywedodd rhai ymatebwyr y byddai rhai o'r profion posibl a amlinellwyd yn ddogfen ymgynghori, gan gynnwys mynnu bod y sefydliad wedi bod mewn bodolaeth am

gyfnod penodol o amser yn rhoi mantais annerbyniol i rai sefydliadau penodol ac yn debygol o gael ei herio drwy'r llysoedd.

68. Yr oedd y pwyntiau penodol ar y mater hwn yn cynnwys:

- Lle bo gan awdurdodau lleol ac eglwysi weithdrefn gymhleth ar gyfer gwneud newidiadau, gallai sefydliad cred, mae'n debyg, ddiddymu ei hun ar bleidlais ei aelodau. Mae angen dealltwriaeth glir ynghylch beth fyddai'n digwydd pe byddai sefydliad cred a gymeradwywyd ar gyfer gweinyddu priodasau yn diddymu ei hun.
- Dylai'r un cyfyngiadau fod yn berthnasol i weinyddion ac sydd i gofrestryddion awdurdodau lleol. Ni ellir penodi cofrestryddion os ydynt ar hyn o bryd neu wedi bod yn fethdalwyr; os ydynt yn Gyfarwyddwr Angladdau neu'n ymwneud â'r busnes amloggi; os ydynt yn Fydwraig, Gweinidog yr Efengyl neu ymarferydd meddygol; os ydynt yn ymwneud ag unrhyw fusnes cysylltiedig ag yswiriant bywyd a busnesau eraill sy'n golygu gwrthdaro mewn buddiannau.
- Dylai corff rheoleiddio oruchwylio achredu a'r grym i dynnu achrediad yn ôl os na chwrddir â safonau, boed yr Awdurdod Lleol neu sefydliad arall sy'n gallu cyflawni'r swyddogaeth hon.

Cynnwys seremonïau

69. Gwnaeth y BHA sylw y dylai'r gofyniad presennol i briodasau gael eu cynnal "gyda drysau agored" fod yn berthnasol, a'r dybiaeth oedd y byddai'r gofyniad presennol am dystion hefyd yn berthnasol. Fodd bynnag, byddai'n well ganddynt beidio gorfod cynnwys y geiriau statudol mewn seremonïau dyneiddiol gan nad yw'r rhain yn angenrheidiol ar gyfer priodasau Iddewon a Chrynwyr, nad oes unrhyw bwrpas clir iddynt ac nad oes unrhyw ran iddynt yn arferion priodasau dyneiddwyr.

70. Gwnaeth Eglwys Loegr sylw bod y gofyniad yn adran 14 sef "ni chaniateir defnyddio unrhyw wasanaeth crefyddol mewn priodas" a gynhelir gan sefydliad cred yn codi'r cwestiwn cymhleth o ddiffinio beth yw gwasanaeth crefyddol. Yr oeddent yn cefnogi'r gofyniad ond yn meddwl nad oedd y ffin rhwng dyneiddiaeth a rhai crefyddau yn ddigon cadarn i atal defnyddio rhai deunyddiau (megis barddoniaeth neu ddarn o gerddoriaeth) a allai gael ei ddehongli'n llym fel un crefyddol. Eu barn hwy yw, oherwydd y gellid ystyried bod ffiniau cadarn yn y cyswllt hwn yn amhosibl eu gorfodi, y byddai cyfyngu cofrestru i sefydliadau cred digrefydd sydd wedi hen sefydlu, yn sefydlog ac yn gyfrifol ganiatáu ar gyfer plismona effeithiol gan y sefydliadau eu hunain, ar y sail na fyddai'r sefydliadau hyn yn debygol o annog defnyddio deunydd penodol grefyddol.

Cwestiwn 6 – Os caniateir priodasau cred, a ddylai camau diogelwch a gymhwysir ar hyn o bryd i sefydliadau crefyddol newydd sy'n cynnal priodasau gael eu hymestyn i sefydliadau cred?

	Yr Holl Ymatebwyr	
	Nifer	Canran
Dylai	228	12.0%
Na ddylai	136	7.2%
Ddim yn gwybod/ Ddim yn dweud	1537	80.9%

	Yr Holl Ymatebwyr	
	Nifer	Canran
Cyfanswm	1901	100%

71. Mae cyfraith priodas yng Nghymru a Lloegr yn golygu ei bod yn ofynnol i gofrestrydd fod yn bresennol mewn priodasau a weinyddir gan sefydliad crefyddol a gofrestrwyd o'r newydd am y flwyddyn gyntaf yn dilyn ei awdurdodi, gyda'r potensial o ymestyn hyn os oes unrhyw bryderon ynghylch gweithdrefnau.
72. Yr oedd dros hanner yr ymatebwyr ar y mater hwn o'r farn y dylid defnyddio'r un camau diogelwch ar draws sefydliadau cred a sefydliadau crefyddol. Y prif resymau a roddwyd oedd er mwyn lleihau a rheoli risgiau yng nghyswllt priodasau ffug a gorfodol; i sicrhau fod pob agwedd ar ddeddfwriaeth priodas a chydaddoldeb perthnasol yn cael eu cynnal; ac i sicrhau bod y trefniadau angenrheidiol yn eu lle ar gyfer diogelu a chadw cofnodion priodas yn ddiogel. Gwnaeth rhai ymatebwyr sylw fod cael cofrestrydd yn bresennol am y flwyddyn gyntaf yn dilyn cofrestrriad o gymorth i sefydliadau gan y gellid defnyddio'r cyfnod i gynorthwyo sefydliadau ac unigolion i ddeall eu cyfrifoldebau ac addasu unrhyw arferion presennol.
73. Yr oedd nifer o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn (37%) yn anghytuno ag ymestyn y gofyniad hwn i sefydliadau cred digrefydd. Dywedodd dros ddwy ran o dair o'r rhai a oedd yn anghytuno bod hyn yn ddiangen ac yn faich i gofrestryddion fynychu pob seremoni ar y sail ei bod yn debygol mai'r BHA fyddai'r unig sefydliad a fyddai'n gymwys dan newid yn y gyfraith, a'i bod yn sefydliad cred sefydledig a oedd yn brofiadol o ran cynnal seremonïau priodas. Yn lle hynny, byddai'n ddigonol i gofrestrydd fynychu rhai seremonïau fel rhyw fath o archwiliad dirybudd a byddai'r BHA yn cydweithio â gwasanaethau cofrestru drwy drefnu hyfforddiant i weinyddion yng nghyswllt priodasau ffug a phriodasau gorfodol.
74. Gwnaed pwynt penodol, pe bai'r camau diogelwch cywir yn cael eu gosod yn eu lle (megis mynnu bod sefydliad wedi'i gofrestru fel elusen, ei fod wedi bod yn cynnal seremonïau am o leiaf bum mlynedd, ac yn gallu nodi ei weithdrefnau ar gyfer dethol, hyfforddi ac achredu gweinyddion) ei bod yn hynod annhebygol y gallai trefnwr priodasau troseddol wneud defnydd o unrhyw newid yn y gyfraith.
75. Yr oedd nifer fechan o ymatebwyr o'r farn y dylai camau diogelwch a threfniadau gweinyddol presennol gael eu gwella'n fwy cyffredinol yn ogystal â chael eu cymhwyso i unrhyw sefydliadau cred newydd eu hawdurdodi. Yr oedd pryderon nad oedd mesurau digonol yn eu lle i ymdrin â chamgymeriadau a dychwelyd cofnodion priodas yn hwyr neu ddim o gwbl, ac nad oedd sancsiynau ar gael am fethu â dilyn gweithdrefnau a gofynion cyfreithiol cytunedig. Mynegwyd pryder hefyd y byddai baich newydd ar wasanaethau cofrestru lleol pe byddai'r trefniadau presennol yn cael eu hymestyn i nifer fawr o sefydliadau neu seremonïau newydd.
76. Codwyd y mater o atal priodasau ffug neu briodasau gorfodol gan nifer o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn. Gwnaeth rhai ymatebwyr awgrymiadau penodol ynghylch cryfhau camau diogelwch. Y rhain oedd y dylai gwasanaethau cofrestru ymwneud yn uniongyrchol â hyfforddi gweinyddion; y dylai gweinyddion fod yn destun archwiliadau trylwyr a monitro parhaus; ac y dylai manylion gweinyddion gael eu cadw mewn cofnod cyhoeddus gan anfon y manylion i'r Swyddfa Gofrestru Gyffredinol.

77. Yn ei hymateb gwnaeth y BHA sylw, oherwydd cymhelliad ei gweinyddion a monitro manwl gan y Gymdeithas, nad oedd yn credu fod unrhyw risg o briodasau ffug neu briodasau gorfodol yn cael eu gweinyddu gan weinyddion dyneiddiol. Ystyrir bod y gofyniad i weinyddion gydweithio'n agos â'r cwpl sy'n priodi er mwyn llunio a pharatoi'r seremoni fel rhan o'u hachrediad, yn gam diogelwch ynddo'i hun.

Cwestiwn 7 – A ddylai priodasau gan sefydliadau cred, os caniateir hwy, gael eu cyfyngu i aelodau o'r sefydliad cred?

	Yr Holl Ymatebwyr	
	Nifer	Canran
Dylai	245	12.9%
Na ddylai	154	8.1%
Ddim yn gwybod/ Ddim yn dweud	1502	79.0%
Cyfanswm	1901	100%

78. Yr oedd dros hanner y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn o'r farn y dylai o leiaf un o'r ddau sy'n priodi fod yn aelod o'r sefydliad cred. Y prif resymau a roddwyd oedd y byddai hyn yn helpu i wreiddio'r seremoni yn y gred, yn atal tuedd tuag at fasnacheiddio ac yn sicrhau nad oedd cyplau a oedd yn dewis y seremoni yn gwneud hynny am resymau ar wahân i rai moesegol (megis y dewis o leoliad neu atyniad at 'allanolion' y seremoni). Dywedodd cyfran fechan y byddai hyn yn cael ei gryfhau os byddai'n rhaid i unigolion fod yn aelodau am gyfnod penodol o amser cyn y gallent gael eu priodi gan weinyddion y sefydliad.
79. Gwnaeth nifer o ymatebwyr sylw y byddai cyfyngu priodasau cred i aelodau yn helpu i warchod sancteiddrwydd a dilysrwydd seremonïau, cynnal safonau, a helpu i ddiogelu yn erbyn priodasau ffug. Roedd rhai o'r farn na ddylai priodasau cred fod yn priodi neb ond eu haelodau eu hunain ar y sail y byddai'r sefydliad yn peryglu ei gredoau drwy briodi rhywun nad oedd yn rhannu'r credoau hynny.
80. Gwnaeth ymatebwyr eraill sylw nad oedd pob unigolyn yn dymuno bod yn aelodau taledig o sefydliad er eu bod yn cefnogi eu credoau a'u gwerthoedd. Dylai fod yn ddigonol fod cwpl yn rhannu neu â chydymdeimlad â chredoau dyneiddiol neu gredoau perthnasol eraill digrefydd, a bod y sefydliad yn fodlon eu bod yn ddifrifol ynghylch byw yn unol â'r credoau a'r gwerthoedd hynny. Gwnaed y pwynt gan un ymatebydd, i rai pobl nad ydynt yn aelodau o unrhyw sefydliad cred, y gallai priodas ddyneiddiol neu i rai â chred ddigrefydd ddod yn agosach at fynegi seiliau eu credoau a'r egwyddorion y maent yn dymuno seilio eu priodas arnynt, na seremoni grefyddol neu sifil.
81. O'r rhai a oedd yn anghytuno, credai nifer y dylai hwn fod yn fater i ddisgresiwn y sefydliad. Gwnaeth eraill sylw nad oedd y cyfyngiad yn berthnasol i gyplau a oedd yn priodi mewn seremonïau crefyddol ac felly ni ddylai fod yn ofynnol i gyrff cred. Yr oedd pryderon eraill a godwyd yn cynnwys y ffaith efallai nad oedd gan rai sefydliadau cymwys strwythur aelodaeth ffurfiol (gan nad oedd hyn yn gynhenid yn niffiniad adran 14 o gyrff cred), y gellid defnyddio gofyniad o'r fath i dyfu aelodaeth, ac nad oedd yn bosibl oherwydd bod diffinio aelodaeth yn rhy agored i gamddefnydd ac yn rhy anodd ei orfodi.

82. Defnyddiodd nifer fechan o ymatebwyr y cwestiwn hwn i ailadrodd eu barn y dylid gwneud darpariaeth i weinyddion seciwlar a Gweinidogion Rhyng-ffydd allu cynnal priodasau cyfreithiol ar gyfer rhai sydd o wahanol ffydd neu nad oes ganddynt gred neu arfer crefyddol penodol ond na fyddai'n ystyried eu hunain yn anffyddwyr. Awgrymwyd y gellid cyflawni hyn drwy drwyddedu gweinyddion neu gymdeithasau o weinyddion yn hytrach nac adeiladau neu sefydliadau cred, a thrwy hynny wneud y mater o aelodaeth yn amherthnasol.

Cwestiwn 8 – (i) Beth yn eich barn chi yw'r effeithiau ar gydraddoldeb yng nghyswllt yr opsiynau a gynigir i briodi cyplau â nodweddion gwarchoddedig?

(ii) A allwch chi ddarparu unrhyw dystiolaeth neu ffynonellau gwybodaeth a fydd yn ein cynorthwyo i ddeall yn well a goleuo ein hasesiad o effaith y cynigion hyn?

83. Dywedodd y mwyafrif o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn y byddai caniatáu priodasau cyfreithiol ddilys ar gyfer rhai â chred ddigrefydd yn rhoi terfyn ar yr anghydraddoldeb yn y ddeddf bresennol ac yn darparu cydraddoldeb rhwng sefydliadau ac unigolion crefyddol a digrefydd drwy ganiatáu i ddyneiddwyr ac o bosibl eraill â chredoau digrefydd i briodi mewn seremoni wedi ei gwreiddio yn eu credoau hwy ac yn cael ei gweinyddu gan berson sy'n rhannu'r credoau hynny.
84. Dywedodd nifer o ymatebwyr y byddai triniaeth gyfartal i rai â chredoau crefyddol a rhai â chredoau digrefydd yn golygu caniatáu i'r ddau grŵp fel ei gilydd gynnal eu priodasau mewn man ystyrion. I unigolion crefyddol byddai hyn mewn eglwysi neu fannau eraill o addoliad, ond ar gyfer dyneiddwyr ni fyddai'n cael ei gyfyngu i adeiladau penodol ond byddai'n lleoliad sy'n ystyrion i'r cwpl.
85. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai unrhyw newidiadau fod yn berthnasol ar draws seremonïau cred, crefyddol a sifil, ac yn benodol na ddylai cyrff cred allu cynnal seremonïau yn yr awyr agored neu mewn lleoliadau digyfngiad os na chât'r mwyafrif o sefydliadau crefyddol a chofrestryddion sifil wneud yr un peth, gan gynnwys oherwydd y byddai'n annheg gwahaniaethu yn erbyn y mwyafrif o gyplau a oedd yn dymuno priodi. Dywedodd un ymatebydd efallai fod rhai grwpiau crefyddol a fyddai'n dymuno cynnal priodasau yn yr awyr agored ond oherwydd y gofyniad i gofrestru adeiladau, nad oedd modd iddynt wneud hynny, ac na fyddai o'r herwydd yn gallu manteisio ar unrhyw ryddfrydoli o ganlyniad i newid yn y gyfraith er budd sefydliadau cred digrefydd yn unig.
86. Gwnaeth un ymatebydd a oedd wedi priodi mewn seremoni ddyneiddiol sylw, fel person anabl, a oedd â gwesteion anabl yn eu priodas, fod mynediad yn fater pwysig ac y bu'n fanteisiol peidio bod wedi eu cyfyngu gan leoliad er mwyn canfod lle o'u dewis a oedd yn hygyrch ac a oedd yn cynnwys cyfleusterau addas. Dywedasant hefyd, pe byddai'r lleoliad wedi bod yn Lloegr, y byddai wedi bod yn fwy ystyrion yn bersonol ac wedi bod â llai o effaith a llai o faterion cydraddoldeb ynghlwm ag ef oherwydd y trafferthion teithio yr oedd yn rhaid iddynt eu goresgyn drwy fynd i'r Alban i gael seremoni briodas ddyneiddiol a oedd yn ddilys dan gyfraith.
87. Dywedodd cyfran fechan o ymatebwyr y byddai caniatáu priodasau i rai â chred ddigrefydd yn fater cadarnhaol ar gyfer cyplau o'r un rhyw gan y gallent fanteisio mewn modd nad oedd ar gael iddynt o fewn rhai sefydliadau crefyddol. Dywedodd un ymatebydd y dylid canmol y BHA am y gwaith a wnaed ganddi i ddarparu opsiwn ar gyfer cyplau o'r un rhyw i ddatlu eu perthynas.

88. Dywedodd nifer fechan o ymatebwyr y byddai angen i'r camau diogelwch priodol fod yn eu lle i sicrhau na allai sefydliad cred wahaniaethu yn erbyn rhai unigolion. Gwnaeth un ymatebydd sylw penodol y dylai seremonïau i rai â chred ddigrefydd fod yn ddarostyngedig i'r un gofynion â seremonïau sifil a oedd yn adlewyrchu'r hyn a oedd yn ofynnol dan gyfraith.
89. Yr oedd rhai ymatebwyr o'r farn mai newid mwy sylfaenol i'r gyfraith i ganiatáu priodas seciwlar yn unig oedd o bosibl yr unig ffordd i sicrhau cydraddoldeb i bob cwpl. Byddai rhagarweiniad sifil cyffredinol a phriodas sifil gyffredinol yn caniatáu llacio'r deddfau ynghylch lleoliad a chynnal seremonïau priodas ac ar yr un pryd yn ei gwneud yn anoddach i briodasau ffug neu orfodol gael eu cynnal, a byddai gan gyplau ryddid i ddewis sut y byddent yn dymuno dathlu.
90. Dywedodd nifer o ymatebwyr y gellid cyflawni cydraddoldeb dan gyfraith drwy ganiatáu hefyd i gyplau sydd â chredoau neu ffydd ar wahân, neu nad ydynt yn ymlynu at unrhyw grefydd benodol ond yn dymuno cael elfen aml-ffydd neu ysbrydol yn eu seremoni, i gael priodas sydd yn cael ei chydabod yn gyfreithiol ac yn gallu cofleidio'u credoau hwy. Gwnaeth un ymatebydd a oedd o'r farn hon sylw y gall, fel Gweinidog Rhyng-ffydd, gynnal y mathau hyn o briodasau o fewn y gyfraith yn yr Alban, ond na chaiff wneud hynny yng Nghymru a Lloegr.

Priodasau Cyplau o'r Un Rhyw

91. Gwnaeth nifer fechan iawn o ymatebwyr sylw na ddylai sefydliadau a gweinyddion cred allu dewis peidio â phriodi cyplau o'r un rhyw. Dywedodd nifer llai eto y dylai fod yn ofynnol i sefydliadau 'ddewis' fel y mae gyda sefydliadau crefyddol. Gwnaeth un ymatebydd sylw y byddai'n cefnogi'r hawl i weinyddion unigol ddewis peidio â chynnal priodasau o'r fath.
92. Yr oedd y sylwadau penodol a wnaed ar y mater hwn yn cynnwys:
 - Na ddylid caniatáu breintiau i ddyneiddwyr nad ydynt ar gael i systemau cred eraill, gan gynnwys crefyddau, ac felly er mwyn cysondeb athronyddol, dylai sefydliadau cred digrefydd, fel sefydliadau crefyddol, orfod dewis darparu priodasau o'r fath.
 - Gan nad oes gan sefydliadau cred destunau crefyddol y gellir seilio eu gwrthwynebiad i briodasau cyplau o'r un rhyw arnynt, ni ddylent allu gwahaniaethu yn erbyn cyplau o'r un rhyw, gan y gall unrhyw un gefnogi credoau moesegol a moesol. Dylai fod yn orfodol dan gyfraith i'w gweinyddion briodi unrhyw un heb fod yn gallu dewis peidio.
 - Gan fod eisoes gymhlethdod a nifer o anghysondebau o fewn cyfraith priodas ynghylch cynnal seremonïau ar gyfer cyplau o'r un rhyw, byddai ychwanegu cymhlethdod arall drwy gynnwys priodasau cred yn gam rhy bell - dylai'r Llywodraeth gynnal adolygiad trylwyr.

Atodiad B – Rhestr o'r grwpiau a ymatebodd

Cyngor Archesgobion Eglwys Loegr
Gwasanaethau Cofrestru Birmingham
Cymdeithas Dyneiddwyr Prydain
British Naturism
Cyngor Sir Swydd Buckingham
Gwasanaeth Cofrestru Swydd Buckingham
Black Border (UK) Ltd
Carter Ceremonies
Celebration Ceremonies & Weddings
Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr
Cyngor Bwrdeistref Dwyrain Swydd Gaer
Yr Eglwys yng Nghymru
Civil Ceremonies Ltd
Coombe Farm Woods
Gwasanaeth Cofrestru Cyngor Sir Dorset
Swyddfa Gofrestru Ealing
Bwrdd Cofrestru Dwyrain Anglia
Cymdeithas Gweinyddion Proffesiynol
Gwasanaeth Cofrestru Swydd Gaerloyw
Dyneiddwyr Manceinion Fwyaf
Gwasanaeth Cofrestru Hampshire
Gwasanaeth Cofrestru Cyngor Sir Swydd Hertford
Democratiaid Rhyddfrydol Seciwlar a Dyneiddiol
International Humanist and Ethical Union
Julie Guest Celebrant Services
Gwasanaeth Cofrestru Cyngor Sir Swydd Gaerhirfryn
Cymdeithas Seciwlar Caerlŷr
Grŵp Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LGBT) Bryste
Grŵp LGBT Caerlŷr
Grŵp Dyneiddwyr Lerpwl
Gwasanaethau Cofrestru Bwrdeistref Hackney, Llundain
Bwrdd Cofrestru Strategol Llundain
Swyddfa Gofrestru Lowestoft

Synagog Maindehead
Gwasanaethau Cofrestru a Phrofedigaeth Medway
Cyngor Milton Keynes
Undeb y Mamau
Panel Cofrestru Cenedlaethol (Cymru a Lloegr)
New Unity
Grŵp Seciwlar a Dyneiddiol Norfolk
Gwasanaeth Cofrestru Cyngor Sir Swydd Northampton
Gwasanaeth Cofrestru Gogledd Swydd Lincoln
Gwasanaeth Cofrestru Cyngor Sir Gogledd Swydd Efrog
Gwasanaeth Cofrestru Cyngor Sir Swydd Nottingham
One Life Ceremonies Ltd
One Spirit Interfaith Foundation
Dyneiddwyr Rhydychen
Gwasanaeth Cofrestru Rhydychen
Pembroke Lodge
Gwasanaeth Cofrestru Poole
Gwasanaeth Cofrestru Cyngor Bwrdeistref Reading
Secular Ceremonies
Shropshire Ceremonies
Signature Ceremonies
Solitary Druid Fellowship
Dyneiddwyr De Orllewin Llundain
Bwrdd Cofrestru De Orllewin Lloegr
Gwasanaeth Cofrestru Cyngor Sir Suffolk
Grŵp Dyneiddwyr Suffolk
Swyddfa Gofrestru Trafford
The School of Conscious Co-Creation
Unity Civil Celebrancy
Grŵp Cofrestru Rhanbarthol Gorllewin Canoldir Lloegr
Gwasanaeth Cofrestru Cyngor Sir Gorllewin Sussex
Zena Birch Weddings



© Hawlfraint y Goron 2014

Gallwch ail-ddefnyddio'r wybodaeth yma (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f.3. I weld y drwydded hon ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/> neu e-bostiwch PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle'r ydym wedi nodi deunydd gyda hawlfraint gan drydydd parti, bydd angen ichi ofyn am ganiatâd gan y sawl sy'n dal yr hawlfraint honno.

Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i MarriagesbyNon-ReligiousBeliefOrganisations@justice.gsi.gov.uk